Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Teuluoedd yn Gyntaf

## Canllawiau Rhaglen

Ebrill 2017

© Hawlfraint y Goron 2017 WG30772 ISBN digidol 978 1 4734 9291 2

## Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
## Ebrill 2017

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Yr holl rai sy'n ymwneud â chynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau a ariannir trwy gyfrwng rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gan gynnwys Cydlynwyr Teuluoedd yn Gyntaf, penaethiaid gwasanaeth awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi ar draws yr holl sectorau perthnasol. |
| **Trosolwg** | Paratowyd y canllawiau rhaglen anstatudol hyn mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol, ac maent yn disodli'r ddogfen flaenorol, *Teuluoedd yn Gyntaf: Canllawiau'r Rhaglen (Fel ym mis Hydref 2011).* Diben y canllawiau hyn yw galluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddeall Teuluoedd yn Gyntaf, ei diben a'i nodau allweddol, gan nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu'r rhaglen.<br><br>Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â darpariaeth elfennau craidd rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn unig. Mae canllawiau ar wahân ar gael, sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â materion ariannol a chasglu data a rheoli perfformiad. |
| **Gweithredu sy'n ofynnol** | Rhaid defnyddio'r canllawiau hyn er mwyn cyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu'r holl wasanaethau a ariannir trwy gyfrwng rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. |
| **Gwybodaeth bellach** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y canllawiau hyn i:<br>Dîm Polisi Teuluoedd yn Gyntaf<br>Is-adran Plant a Theuluoedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ<br>E-bost: familiesfirst@wales.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Dim ond mewn ffurf ddigidol y mae'r ddogfen hon ar gael. |
| **Dogfennau cysylltiedig** | • Canllawiau Fframwaith Rheoli Perfformiad Teuluoedd yn Gyntaf: Ebrill 2017<br>• Canllawiau Ariannol Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (Fel ym mis Hydref 2011) |

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | **Cyd-destun polisi** | **1** |
| 1.1 | Polisi Llywodraeth Cymru | 1 |
| 1.2 | Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | 1 |
| 1.3 | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | 2 |
| **2** | **Cyflwyniad i Deuluoedd yn Gyntaf** | **3** |
| 2.1 | Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf? | 3 |
| 2.2 | Beth yw ymyrraeth gynnar? | 3 |
| 2.3 | Beth ydym yn dymuno gweld Teuluoedd yn Gyntaf yn ei gyflawni? | 4 |
| 2.4 | Egwyddorion Teuluoedd yn Gyntaf | 4 |
| 2.5 | Ble mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymddangos ar y continwwm cymorth? | 5 |
| 2.6 | Perthynas gyda chynlluniau a rhaglenni eraill | 6 |
| 2.7 | Asesu anghenion poblogaethau | 7 |
| **3** | **Cyflawni elfennau allweddol Teuluoedd yn Gyntaf** | **8** |
| 3.1 | Fframwaith Asesu ar y Cyd ar gyfer Teuluoedd | 8 |
| 3.2 | Tîm o Amgylch y Teulu | 9 |
| 3.3 | Ffocws ar Anabledd | 11 |
| 3.4 | Comisiynu strategol | 12 |
| 3.4.1 | Comisiynu gwasanaethau effeithiol | 13 |
| 3.5 | Setiau dysgu | 14 |
| **4** | **Comisiynu strategol – Rhianta** | **16** |
| 4.1 | Beth yw rhianta? | 16 |
| 4.2 | Sut mae modd i Deuluoedd yn Gyntaf gynorthwyo rhieni? | 16 |
| 4.3 | Nodau craidd cymorth rhianta | 16 |
| 4.4 | Themâu cymorth | 18 |
| 4.5 | Themâu sy'n gysylltiedig ag oed | 18 |
| 4.6 | Themâu trawsbynciol | 20 |
| 4.7 | Pa fathau o gymorth y dylid eu darparu? | 22 |
| 4.8 | Grwpiau blaenoriaeth | 24 |
| 4.9 | Pwy y mae angen iddynt gymryd rhan? | 28 |
| 4.10 | Ymgysylltu â theuluoedd | 30 |
| 4.11 | Monitro ymyriadau | 32 |
| **5** | **Comisiynu strategol – Cymorth ar gyfer pobl ifanc** | **33** |
| 5.1 | Pam ddylai Teuluoedd yn Gyntaf ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc? | 33 |
| 5.2 | Nodau craidd y cymorth ar gyfer pobl ifanc | 34 |
| 5.3 | Beth yw ffocws oedran y cymorth ar gyfer pobl ifanc? | 35 |
| 5.4 | Nodi anghenion pobl ifanc | 35 |
| 5.5 | Pwy y mae angen iddynt gymryd rhan? | 36 |
| 5.6 | Sut ddylid darparu cymorth? | 37 |
| 5.7 | Themâu allweddol y cymorth | 38 |

| | | |
|---|---|---|
| 5.8 | Mathau o gymorth | 40 |
| 5.9 | Cynnal gweithgarwch ymgysylltu | 40 |
| **6** | **Darparu gwasanaethau o ansawdd** | **42** |
| **7** | **Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaethau statudol** | **43** |
| 7.1 | Gweithio gyda theuluoedd sy'n agored i wasanaethau statudol | 43 |
| **8** | **Gofynion cynllunio** | **45** |
| **9** | **Arbed costau trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf** | **46** |
| **10** | **Yr iaith Gymraeg** | **47** |

# 1. Cyd-destun polisi

## 1.1 Polisi Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud Cymru yn wlad lle y mae pobl yn dymuno byw a gweithio, a lle y mae plant, beth bynnag fo'r amgylchiadau y cânt eu geni iddynt, yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial. Mae cynllun strategol pum mlynedd Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen, yn pennu nodau eglur er mwyn rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru, a chynorthwyo teuluoedd i greu amgylcheddau sefydlog ac sy'n meithrin, lle y bydd plant yn ffynnu.

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ein holl benderfyniadau polisi er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ar hyn o bryd a dros y tymor hwy. Mae gan Deuluoedd yn Gyntaf rôl allweddol wrth ddarparu cymorth i deuluoedd pan fyddant ei angen fwyaf, er mwyn helpu i greu cymunedau sy'n hyderus ac yn fwy cydnerth.

Mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 wedi rhoi nifer o ddyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol a'u partneriaid ac mae'n bwysig bod gwasanaethau'n cael eu datblygu gan gadw'r tirlun deddfwriaethol newydd hwn mewn cof. Yn arbennig, mae cysyniad ymyrraeth gynnar a gweithgarwch atal bellach yn ffordd o weithio a ymgorfforwyd mewn ffordd gadarn, a bydd pobl wrth wraidd systemau newydd ac yn cael y cyfle i ddweud eu dweud am yr hyn sy'n digwydd iddynt mewn ffordd gyfartal. Nid yw'r cysyniadau hyn yn newydd o fewn Teuluoedd yn Gyntaf, ond bydd hi'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cydnabod sut y mae'r egwyddorion hyn yn cael eu hymgorffori ar draws gweithgarwch cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol, wrth iddynt ddatblygu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd.

## 1.2 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

**Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn cynnwys cael cyswllt â'r canlynol yn ystod plentyndod:**

- **Camddefnyddio alcohol a sylweddau**
- **Cam-drin corfforol, meddyliol neu rywiol a/neu esgeulustod**
- **Trais domestig**
- **Rhieni yn gwahanu a/neu deulu yn chwalu**
- **Salwch meddwl**
- **Rhieni yn cael eu carcharu**

Atgyfnerthir yr angen am ymyrraeth gynnar effeithiol ac ymyrraeth sy'n datblygu cydnerthedd a llesiant teulu gan Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yr astudiaeth yn ychwanegu at gorff cynyddol o dystiolaeth sy'n awgrymu bod plant sy'n cael profiad o ACEs lluosog yn fwy tebygol o

fabwysiadu ymddygiad sy'n niweidiol i'w hiechyd yn ystod y glasoed, sy'n gallu arwain at iechyd meddyliol a chorfforol gwael yn nes ymlaen yn ystod eu bywyd. Gall y plant a'r bobl ifanc hyn fynd i gylch adfyd sy'n gallu clymu cenedlaethau olynol o deuluoedd i iechyd gwael, canlyniadau cyfleoedd bywyd gwael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae'n fwy cyffredin i'r rhai sy'n cael ACEs i fagu eu plant eu hunain mewn aelwydydd lle y mae ACEs yn gyffredin.

Gall atal ACEs gynnig manteision sylweddol i deuluoedd ac unigolion, yn ogystal â chymunedau ehangach. Bydd yn bwysig bod awdurdodau lleol yn ystyried y rôl y gall Teuluoedd yn Gyntaf ei gyflawni wrth ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i atal ACEs, yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau ACEs ar y rhai y maent eisoes wedi cael profiad ohonynt, er mwyn helpu i dorri cylch adfyd sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n gafael mewn cymaint o deuluoedd yng Nghymru.

### 1.3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail ar gyfer gweithgarwch llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Gan gyd-fynd ag egwyddorion CCUHP, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn gwireddu eu potensial, beth bynnag fo eu cefndir neu eu hamgylchiadau. Er mwyn sicrhau eu bod yn pontio i fyd oedolyn annibynnol mewn ffordd effeithiol a chyfrannu at ffyniant cymdeithasol ac economaidd, dylid annog, galluogi a chynorthwyo pobl ifanc i gyflawni'r canlynol mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol:

- Cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant mewn ffordd effeithiol
- Cymryd rhan ym mywyd eu cymunedau mewn ffordd effeithiol a chyfrifol
- Manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth

Nid yw pob person ifanc yn cael y cymorth y mae angen iddynt ei gael yn amgylchedd eu cartref, ac mae'n hanfodol bod modd i rieni gael y gwasanaethau cywir sy'n gallu eu helpu i ymdopi â'r pwysau o fagu plant. Yn ogystal, rhaid bod modd i blant a phobl ifanc fanteisio ar wasanaethau wedi'u targedu, sy'n gallu eu helpu i wireddu eu potensial a gwella'u cyfleoedd mewn bywyd.

## 2. Cyflwyniad i Deuluoedd yn Gyntaf

### 2.1 Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf?

**Cynlluniwyd Teuluoedd yn Gyntaf i wella canlyniadau plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, gweithgarwch atal a chynnig cymorth ar gyfer teuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion.**

**Mae'r rhaglen yn hyrwyddo mwy o waith amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cydgysylltiedig pan fydd angen hynny arnynt. Bwriad y rhaglen yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd, gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu.**

Cydnabyddir yn eang ei bod yn bwysig bod teuluoedd yn cael eu cynorthwyo mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hanghenion, er mwyn datblygu a chreu cydnerthedd a hunanddibyniaeth. Mae ymyriadau sy'n cefnogi'r egwyddorion hyn yn fwy tebygol o arwain at ganlyniadau gwell yn y tymor hwy i deuluoedd ac i unigolion o fewn teuluoedd. Sefydlwyd Teuluoedd yn Gyntaf gyda'r nod o sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn manteisio ar ddull gweithredu wedi'i seilio ar gryfderau, lle y caiff teuluoedd eu hannog i gydnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda yn eu sefyllfaoedd er mwyn cynorthwyo gweithgarwch i'w grymuso ac i sicrhau perchnogaeth o'u twf a'u datblygiad. Cynlluniwyd yr ymyriadau cynharach hyn i atal teuluoedd rhag bod mewn sefyllfa lle y mae angen gofal adferol drud arnynt trwy gyfrwng y gwasanaethau statudol yn y dyfodol.

### 2.2 Beth yw ymyrraeth gynnar?

***"Mae ymyrraeth gynnar yn ymwneud â gweithredu cyn gynted ag y bo modd er mwyn delio â phroblemau plant a theuluoedd cyn iddynt fynd yn anoddach eu dadwneud"*** **(Sefydliad Ymyrraeth Gynnar)**

Nid yw ymyrraeth gynnar yn canolbwyntio ar gymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar i blant a theuluoedd yn unig. Mae'n ymwneud â helpu i atal pobl ifanc a theuluoedd sy'n cynnwys plant o bob oed rhag datblygu problemau sy'n anodd i'w goresgyn.

Trwy roi'r sgiliau a'r cymorth y mae eu hangen ar deuluoedd mor gynnar ag y bo modd, rydym yn llawer mwy tebygol o'u hatal rhag cael anawsterau yn nes ymlaen, ac yn fwy tebygol o helpu teuluoedd i ddatblygu cylchoedd cadarnhaol o ran rhianta, perthnasoedd ac ymddygiad sy'n pontio'r cenedlaethau.

Trwy ddatblygu cryfderau rhieni, gallwn eu helpu i greu amgylcheddau i'w plant sy'n cynorthwyo ac yn cyfoethogi, er mwyn rhoi pob cyfle iddynt wireddu eu potensial ac ymgysylltu ag ymddygiad cadarnhaol tebyg gyda'u plant eu hunain.

## 2.3 Beth ydym yn dymuno gweld Teuluoedd yn Gyntaf yn ei gyflawni?

Rhaid i Deuluoedd yn Gyntaf ddangos ei fod yn gallu gwella canlyniadau teuluoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus, yn meithrin ac yn gydnerth. Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys ymrwymiad i "Gynorthwyo teuluoedd a rhieni i leihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n gallu cael effeithiau gydol bywyd", ac mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ffordd allweddol o gyflawni hyn.

Er bod gan Deuluoedd yn Gyntaf rolau atal a diogelu deuol, dylai barhau i ysgogi gwelliannau o ran cymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, gan geisio gostwng nifer y teuluoedd sy'n datblygu anghenion mwy cymhleth. Yn benodol, dylai'r rhaglen geisio:

- Cynllunio a datblygu gwasanaethau arloesol sy'n gallu cynorthwyo teuluoedd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy
- Annog diwylliant o ddysgu am welliant parhaus wrth ddarparu gwasanaeth, rhannu arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd
- Hyrwyddo effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng dull gweithredu "buddsoddi er mwyn arbed", sy'n cynnwys ffocws cynnar ar weithgarwch ymyrraeth gynnar ac atal
- Cydweithio a chydweithredu gydag asiantaethau a rhaglenni eraill er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddarparu gwasanaeth yn cyd-fynd, heb unrhyw fylchau na dyblygu gwasanaethau

## 2.4 Egwyddorion Teuluoedd yn Gyntaf

Dylai gwasanaethau a ddarparir trwy'r rhaglen ystyried y prif egwyddorion canlynol:

- **Canolbwyntio ar y teulu** – dylai gwasanaethau fabwysiadu dull gweithredu teulu cyfan tuag at wella canlyniadau
- **Pwrpasol** – dylid teilwra gwasanaethau i amgylchiadau teuluoedd unigol
- **Grymuso** – dylai gwasanaethau geisio grymuso teuluoedd i reoli eu bywydau, gan roi mwy o ymdeimlad o berchnogaeth a buddsoddiad yn eu canlyniadau iddynt
- **Integredig –** dylid cynllunio a chydlynu gwasanaethau mewn ffordd effeithiol er mwyn sicrhau dilyniant di-dor i deuluoedd rhwng gwahanol ymyriadau a rhaglenni
- **Dwys** – rhaid cynnal dull gweithredu cadarn a ffocws diwyro sy'n gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid i deuluoedd
- **Lleol** – dylai gwasanaethau roi sylw i anghenion cymunedau lleol, a phan fo modd, dylent geisio cyfleoedd i gysylltu â rhaglenni lleol eraill, gan gynnwys Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl

- **Rhagweithiol** – ceisio adnabod angen yn gynnar a sicrhau ymyriadau priodol mewn ffordd amserol
- **Cynaliadwy** – dylai gwasanaethau geisio cynnig datrysiadau cynaliadwy hirdymor bob amser. Dylent geisio rhoi sylw i wir achosion problemau, nid y symptomau'n unig, er mwyn galluogi teuluoedd i barhau i sicrhau cynnydd ar ôl i'r ymyrraeth ddod i ben

### 2.5 Ble mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymddangos ar y continwwm cymorth?


Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o gontinwwm cymorth sy'n cynnwys ystod eang o anghenion. Rydym wedi nodi'r meysydd cymorth allweddol canlynol:

- **Cyffredinol** – teuluoedd heb unrhyw anghenion ychwanegol gan amlaf, sy'n cael gwasanaethau cyffredinol megis addysg a gofal iechyd.
- **Ymyrraeth gynnar** – teuluoedd sydd â rhai anghenion ychwanegol, y mae modd rhoi sylw iddynt trwy gyfrwng ymyrraeth gynnar wedi'i thargedu
- **Cymorth dwys** – teuluoedd sydd ag anghenion lluosog ac y mae gofyn iddynt gael pecyn cymorth amlasiantaethol wedi'i gydlynu, er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu i fod yn argyfwng
- **Gwasanaethau arbenigol** – teuluoedd sydd ag anghenion pen-uchaf ac aciwt, y mae gofyn iddynt gael cymorth statudol

Mae'r cymorth a ddarparir trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf yn rhychwantu ystod eang o anghenion, o ymyrraeth gynnar i ymyriadau dwys, amlasiantaethol, ond ni ddylai gynorthwyo teuluoedd mewn argyfwng, y mae gofyn iddynt gael gwasanaethau statudol neu arbenigol. Dylai protocolau rhannu gwybodaeth effeithiol gynnig sail i'r holl wasanaethau.

Mae diagram 1 ar dudalen 6 yn dangos hyn.

**Diagram 1 – Teuluoedd yn Gyntaf a'r continwwm cymorth**




## 2.6 Perthynas gyda chynlluniau a rhaglenni eraill

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn un o blith nifer o gynlluniau a rhaglenni sy'n helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd. Ni all Teuluoedd yn Gyntaf weithredu ar ei ben ei hun, ac mae'n rhaid i chi geisio ffurfio perthnasoedd gyda'r rhaglenni eraill hyn er mwyn sicrhau bod y cymorth yn cyd-fynd, ei fod yn gydgysylltiedig a'i fod yn hygyrch i gymaint o bobl ag y bo modd.

Bydd y ffordd a ddewiswch er mwyn cyflawni hyn yn ddibynnol ar faterion sy'n rhai penodol i'ch ardal leol chi, ond disgwyliwn bod modd i chi ddangos eich bod wedi ystyried sut y mae darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn eich ardal leol chi yn cysylltu â'r rhaglenni eraill er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu'n lleol, ar draws y continwwm cymorth.

Yn ogystal, bydd angen i chi ystyried sut yr ydych yn ffurfio cysylltiadau effeithiol gyda gwasanaethau cyffredinol, yn ogystal â gwasanaethau eraill, mwy arbenigol, er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaethau a gynigir gan Deuluoedd yn Gyntaf ac er mwyn annog cyfeiriadau amserol. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Ysgolion a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill
- Asiantaethau iechyd (gan gynnwys gwasanaethau bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a CAMHS)
- Gwasanaethau Tai
- Heddlu
- Darparwyr gwaith ieuenctid

- Timau Troseddau Ieuenctid
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD)
- Asiantaethau arbenigol eraill, e.e.  gwasanaethau cam-drin domestig ac ati.

Yn ogystal, bydd angen i chi ystyried strategaethau a chynlluniau eraill sy'n bodoli eisoes ac y maent wedi cael eu datblygu yn eich ardal leol chi er mwyn sicrhau cyswllt di-dor rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a'r blaenoriaethau a nodir ynddynt.

### 2.7 Asesu anghenion poblogaethau lleol

Er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau effeithiol i deuluoedd, rhaid eich bod yn meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion teuluoedd sy'n byw yn eich ardal leol chi.  Bydd angen i chi gynnal asesiadau er mwyn pennu'r rhain, gan ystyried safbwyntiau dinasyddion a darparwyr gwasanaethau.

Wrth gynnal yr asesiadau hyn, fe'ch anogwn i wneud defnydd llawn o ddata gan ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys asesiadau anghenion cymunedol sy'n bodoli eisoes, megis yr Asesiadau Llesiant lleol, sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r asesiadau anghenion poblogaeth sy'n ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.  Yn ogystal, byddwn yn disgwyl i chi ystyried amrediad o ffynonellau eraill y gallent fod yn berthnasol i'r rhaglen hefyd.

# 3. Cyflawni elfennau allweddol Teuluoedd yn Gyntaf

**Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn hyrwyddo gweithgarwch ailgynllunio systemau ar lefel leol, gan ymgorffori arferion gwaith amlasiantaethol ym mhob agwedd ar gymorth i deuluoedd. Mae hyn yn digwydd mewn ffordd hyblyg o fewn fframwaith sy'n canolbwyntio ar yr elfennau allweddol canlynol:**

- **Fframwaith Asesu ar y Cyd ar gyfer Teuluoedd**
- **Tîm o Amgylch y Teulu**
- **Ffocws ar Anabledd**
- **Comisiynu strategol**
- **Setiau dysgu**

**Mae'r adran hon yn archwilio sut y datblygwyd yr elfennau hyn wrth i'r rhaglen aeddfedu, gan ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r** Gwerthusiad Cenedlaethol o Deuluoedd yn Gyntaf **a chan nodi ein disgwyliadau ynghylch eu datblygiad yn y dyfodol.**

### 3.1 Fframwaith Asesu ar y Cyd ar gyfer Teuluoedd (JAFF)

Cefndir

Bwriad JAFF oedd annog asiantaethau i gydweithio er mwyn asesu anghenion y teulu cyfan, gan ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o roi sylw i'r anghenion hynny.

Roedd yn rhaid i fodelau JAFF gyflawni'r gofynion canlynol:

- Bod yn arloesol
- Sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn ystyrlon, yn hygyrch ac yn ddefnyddiol
- Cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu gyda'r teulu cyfan
- Ystyried y teulu cyfan

Ble'r ydym ni nawr?

Bellach, mae modelau JAFF yn weithredol ym mhob awdurdod lleol. Mae ffocws JAFF ar gynnwys y teulu cyfan yn ystod y broses asesu, yn hytrach na'r unigolion ynddo, yn un o'i brif lwyddiannau. Mae'r dull gweithredu hwn wedi galluogi asesiadau mwy cynhwysfawr o gryfderau ac anghenion, yn ogystal â hyrwyddo mwy o ymdeimlad o berchnogaeth a grymuso teuluoedd. Ceir cytundeb eang bod gan y model asesu cynnar effeithiol hwn, sy'n dwyn ynghyd amrediad o asiantaethau a'u harbenigedd, rôl allweddol i'w gyflawni wrth adnabod yr angen a'r ffyrdd mwyaf priodol o roi sylw iddo.

At ei gilydd, gweithredir dau fodel JAFF ar draws Cymru:

- JAFF a ddefnyddir yn y broses gyfeirio gychwynnol
- JAFF a ddefnyddir fel rhan o broses asesu ddilynol

Datblygiadau yn y dyfodol

Waeth pa fodel a ddefnyddir yn eich ardal chi, mae natur JAFF sy'n canolbwyntio ar y teulu wedi bod yn hanfodol i ddatblygiad llwyddiannus Teuluoedd yn Gyntaf. Mae datblygiad parhaus modelau JAFF lleol yn bwysig er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, a disgwyliwn i chi ddangos ymrwymiad parhaus tuag at adolygu a gwella'ch modelau er budd teuluoedd yn eich ardaloedd lleol.

Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn datblygu elfennau hyblyg yn eich dulliau gweithredu, er mwyn galluogi mwy o "gludadwyedd" a/neu ystyried datblygiad modelau asesu rhanbarthol os yw hynny'n ymarferol ac o fudd i boblogaethau lleol.

## 3.2 Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)

Cefndir

Bwriad datblygu modelau TAF oedd datblygu dull gweithredu blaenorol Tîm o Amgylch y Plentyn (TAC), a ddefnyddiwyd mewn nifer o awdurdodau lleol, ond gan roi sylw i anghenion y teulu cyfan, yn hytrach nag aelodau unigol.

Roedd gan awdurdodau lleol hyblygrwydd sylweddol wrth ddatblygu modelau TAF, ar yr amod eu bod yn cyflawni'r canlynol:

- Hyrwyddo arferion rhannu gwybodaeth effeithiol a chadarn
- Darparu system gymorth amlasiantaethol wedi'i chydlynu
- Mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y teulu
- Cyd-fynd yn agos â JAFF
- Eu bod yn ddigon hyblyg er mwyn darparu cymorth mewn ffyrdd sy'n addas i amgylchiadau ac anghenion penodol teuluoedd
- Eu bod yn myfyrio am ehangder angen teuluoedd

Ble'r ydym ni nawr?

Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru fodelau TAF, sy'n cydnabod anghenion ac amrywiadau lleol o ran sut y maent yn gweithredu mewn ffordd leol. Mae datblygiad modelau TAF wedi bod yn un o lwyddiannau allweddol y rhaglen. Yn gyffredinol, mae'r modelau'n perthyn i un o dri chategori:

- **Busnes Pawb** – lle y mae ymarferwyr o fewn gwasanaethau cyffredinol/eraill yn ymwneud â darpariaeth graidd TAF fel gweithwyr allweddol neu weithwyr proffesiynol arweiniol
- **Canoledig** – lle y cyflawnir swyddogaethau TAF gan dîm a ariannir yn ganolog. Gallai hyn gael ei gontractio i asiantaethau allanol, a byddant naill ai:
    - Wedi'u cydleoli mewn un lleoliad neu

- Wedi'u lleoli mewn lleoliadau lluosog, er enghraifft, o gwmpas canolfan gymunedol neu ysgol
- **Modelau hybrid** – sy'n cyfuno elfennau o'r ddau uchod.

Fel arfer, mae gweithgarwch TAF yn cynnwys:

- Gweithiwr allweddol sy'n cyflawni rôl y prif gyswllt ar gyfer y teulu, gan gydlynu cymorth asiantaethau
- Sicrhau bod cymorth yn bodloni anghenion amgylchiadau ac anghenion y teulu cyfan
- Gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod anghenion teulu a sut y gallent gydweithio er mwyn delio â nhw

<u>Datblygiadau yn y dyfodol</u>

Disgwyliwn i chi ddatblygu llwyddiant TAF, gan ddatblygu a gwella'r modelau a weithredir yn eich ardaloedd lleol chi yn barhaus.

Mae tystiolaeth werthuso wedi canfod nad yw llwyddiant dull gweithredu TAF o reidrwydd yn gysylltiedig â'r model darparu yr ydych chi wedi dewis ei ddatblygu, ond mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod staff ar draws yr asiantaethau sy'n ymwneud â darparu TAF yn ymwybodol o'u rôl yn y broses, ac yn ei dderbyn.  O gofio hyn, disgwyliwn i chi barhau i ymgysylltu â phartneriaid lleol wrth ddarparu TAF mewn ffordd weithredol, er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu pecynnau cymorth amlasiantaethol cadarn sy'n bodloni anghenion teuluoedd a nodwyd.

Bydd angen i chi sicrhau bod eich model TAF yn ddigon hyblyg er mwyn bodloni anghenion y rhai sy'n cael eu cyfeirio iddo.  Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo ymyriadau TAF yn ddibynnol iawn ar brosiectau a gomisiynwyd er mwyn darparu gwasanaethau.  Wrth i ffocws y prosiectau hyn newid, gallai amrediad y gwasanaethau a gomisiynir amrywio.  Bydd angen i chi sicrhau bod modd i chi weithio gyda'r asiantaethau mwyaf priodol trwy gyfrwng TAF er mwyn galluogi teuluoedd i fanteisio ar y cymorth y mae ei angen arnynt er mwyn cyflawni canlyniadau llwyddiannus.

Wrth barhau i gyflawni TAF, bydd angen i chi sicrhau:

- Bod anghenion y teulu cyfan yn parhau i fod wrth wraidd unrhyw becyn cymorth.
- Bod arferion rhannu gwybodaeth cadarn sy'n annog gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau i gyfarfod yn rheolaidd i drafod anghenion teuluoedd yn cael eu hymgorffori yn eich modelau TAF mewn ffordd gadarn
- Dylai'r holl rai sy'n gysylltiedig â TAF wneud cyfraniad gweithredol a chadarnhaol i'r broses o ddatrys problemau a rhannu perchnogaeth dros fodel TAF y maent yn ei gynorthwyo
- Caiff gweithwyr allweddol/gweithwyr proffesiynol arweiniol eu cynorthwyo mewn ffordd effeithiol gan yr holl rai sy'n ymwneud â TAF er mwyn eu galluogi i ddarparu cymaint o gymorth ag y bo modd i deuluoedd.

Pan fo modd, dylai modelau TAF ymateb i anghenion lluosog ac sydd wedi'u gwreiddio, a hefyd, dylent fod yn ddigon eang neu hyblyg er mwyn gallu gwneud gwaith ataliol gyda theuluoedd yn gynharach, er mwyn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg.

### 3.3 Ffocws ar Anabledd

Cefndir

Datblygwyd yr elfen hon er mwyn cydnabod, er y dylid ystyried teuluoedd sy'n cynnwys plant a phobl ifanc anabl a'r rhai gyda gofalwyr ifanc fel rhan allweddol o'r rhaglen, weithiau, mae gofyn cael ffocws ar wahân er mwyn sicrhau y darparir ar gyfer eu hanghenion penodol nhw.

Unwaith eto, rhoddwyd cryn hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth gynllunio gwasanaethau lleol, ac fe'u hanogwyd i ganolbwyntio ar:

- Well mynediad i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant
- Gweithgarwch gwell er mwyn cydlynu ac integreiddio gwasanaethau
- Sicrhau cymaint o incwm ag y bo modd ac ymwybyddiaeth o hawliau lles
- Mwy o gyfleoedd i fanteisio ar chwarae a hamdden, gan gynnwys darpariaeth chwarae cyn ysgol.
- Darpariaeth atodol egwyl byr a seibiant
- Hyfforddiant ar gyfer darpariaeth gofal plant penodol
- Hyfforddiant ar gyfer cyfleoedd eraill i rieni

Ble'r ydym ni nawr?

Canfu tystiolaeth werthuso bod y gwasanaethau ar gyfer teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd wedi gwella ers y datblygwyd Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ariannir trwy'r rhaglen yn wasanaethau newydd nad oeddent ar gael yn flaenorol. Canfu tystiolaeth werthuso bod y rhaglen wedi bod yn gyfrifol am symud ar draws sawl maes allweddol darpariaeth anabledd, gan gynnwys:

- Mwy o ymwybyddiaeth o effaith ehangach anabledd ar y teulu cyfan, yn hytrach na'r unigolyn sy'n cael eu heffeithio mewn ffordd uniongyrchol
- Hyblygrwydd er mwyn rhoi sylw i anghenion cymorth newydd a nodwyd neu sy'n dod i'r amlwg
- Mwy o gymorth ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau sy'n cael eu heffeithio gan anabledd
- Mwy o gymorth ar gyfer teuluoedd yn ystod y cyfnod pan roddir diagnosis iddynt neu cyn y rhoddir diagnosis iddynt
- Buddsoddi yn y gwaith o gydlynu ac integreiddio gwasanaethau sy'n bodoli eisoes

Datblygiadau yn y dyfodol

Disgwyliwn i chi ddatblygu'r cynnydd a sicrhawyd gennych, gan barhau i ddatblygu gwasanaethau arbenigol ac uwch-sgilio gweithwyr prif ffrwd a sicrhau bod gwasanaethau a ddarparir trwy gyfrwng elfen hon y rhaglen yn gallu bodloni anghenion penodol teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd yn eich ardal leol chi. Mae hyn yn cynnwys ystyried manteision comisiynu gwasanaethau mewn ffordd ranbarthol neu aml-awdurdod er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cyrraedd mor eang ag y bo modd a'u bod yn cael cymaint o effaith ag y bo modd.

### 3.4 Comisiynu strategol

Cefndir

Cyn Teuluoedd yn Gyntaf, cytunwyd yn eang bod angen dull gweithredu mwy strategol a chydlynol er mwyn osgoi bylchau a dyblygu wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd. Roedd Teuluoedd yn Gyntaf yn ceisio rhoi sylw i hyn trwy gynorthwyo ymyriadau wedi'u seilio ar y boblogaeth, a oedd yn annog awdurdodau lleol i nodi anghenion penodol cymunedau, ac ymateb iddynt. Disgwyliwyd i awdurdodau lleol gomisiynu nifer fach o brosiectau strategol, yr oedd ganddynt gyswllt eglur ac amlwg gydag asesiadau anghenion cymunedol a ffocws ar ymyrraeth gynnar a gweithgarwch atal.

Ble'r ydym ni nawr?

Comisiynwyd gwasanaethau ar draws ystod eang o feysydd, sy'n cynnwys:

- Gwasanaethau cyngor
- Trais domestig
- Cyflogaeth
- Cymorth i deuluoedd
- Iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl)
- Rhianta
- Chwarae
- Cymorth i ofalwyr ifanc
- Gwasanaethau cymorth ieuenctid (gan gynnwys cymorth ar gyfer pobl ifanc NEET)

I raddau mawr, mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn wrth ymateb i anghenion poblogaethau lleol. Fodd bynnag, mae ystod gwasanaethau a gomisiynir wedi mynd yn gynyddol eang, sydd wedi arwain at bryderon ynghylch cynaladwyedd, os bydd hyn yn parhau. Mae'r data yn dweud wrthym bod anghenion teuluoedd yn perthyn i gategorïau lles, hyder a chydnerthedd gan amlaf. Mae angen rhoi sylw i'r rhain cyn y bydd modd rhoi sylw i unrhyw faterion eraill, megis diweithdra neu sgiliau.

Datblygiadau yn y dyfodol

Mae plant pobl y mae lefel eu lles yn isel ac y mae lefel eu hyder a'u cydnerthedd yn is, yn fwy tebygol o ddioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod megis trais domestig, camddefnyddio alcohol a sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Maent yn debygol o ddioddef arwahanrwydd cymdeithasol ac o fod yn llai abl i greu amgylcheddau sefydlog ac sy'n meithrin er mwyn magu plant. Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn amgylcheddau o'r fath yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd sicrhau canlyniadau cadarnhaol hirdymor ac maent yn debygol iawn o fagu eu plant nhw mewn amgylcheddau lle y mae ACEs yn gyffredin, gan greu cylch amddifadedd economaidd a chymdeithasol sy'n anodd ei dorri.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth hon, dylai gwasanaethau a gomisiynir fel rhan o'r rhaglen ganolbwyntio ar rianta a chymorth ar gyfer pobl ifanc. Bydd modd i awdurdodau lleol gomisiynu ystod eang o wasanaethau o hyd, a byddant yn cadw gafael ar yr hyblygrwydd i gynllunio modelau comisiynu sy'n addas i drefniadau lleol. Fodd bynnag, dylai'r prosiectau a gomisiynir ganolbwyntio ar sicrhau bod teuluoedd yn meddu ar amrediad o sgiliau er mwyn meithrin eu hyder a'u cydnerthedd, a'u cynorthwyo i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hwy. Mae'n bwysig nad yw gwasanaethau ar gyfer rhieni a phobl ifanc yn cael eu darparu ar eu pen eu hunain, a bydd angen i chi sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cysylltu â'i gilydd a'u bod yn gydlynol, er mwyn galluogi teuluoedd i gael ehangder y cymorth y mae angen iddynt ei gael.

Nodir ein disgwyliadau mewn perthynas â chomisiynu strategol ar gyfer rhieni a phobl ifanc yn fanylach ym mhenodau **4** a **5**.

### 3.4.1 Comisiynu gwasanaethau effeithiol

Mae'r disgwyliadau ynghylch comisiynu yn parhau i fod yr un fath ag yr oeddent yn ystod cam cyntaf y rhaglen. Disgwyliwn i chi gomisiynu:

- Set gydlynol a strwythuredig o brosiectau wedi'u seilio ar dystiolaeth, sy'n cyfrannu at ganlyniadau poblogaeth ac sy'n seiliedig ar asesiad lleol o anghenion plant, teuluoedd a phobl ifanc.
- Gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd – ar draws asiantaethau ac awdurdodau lleol
- Prosiectau sy'n rhoi ffocws cryf ar weithgarwch atal a diogelu
- Nifer fach o brosiectau strategol ar raddfa fawr, y mae ganddynt derfyn amser a strategaethau ymadael clir.

Disgwyliwn i chi fabwysiadu dull gweithredu thematig tuag at y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau i deuluoedd; gan weithio trwy bartneriaethau effeithiol gyda'r asiantaethau sy'n darparu prosiectau er mwyn sicrhau bod nod cyffredin cytunedig.

Chi sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cyfliniad strategol gyda rhaglenni cymorth eraill yn eich ardal leol a'r prosesau comisiynu effeithiol. Fe'ch anogwn i fabwysiadu

dulliau gweithredu arloesol wrth alinio gwasanaethau, gan ystyried meysydd lle y byddai comisiynu ar y cyd yn gwella effeithiolrwydd y broses o ddarparu gwasanaeth. Yn ogystal, efallai yr hoffech ystyried manteision comisiynu gwasanaethau mewn ffordd ranbarthol neu aml-awdurdod er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cyrraedd mor eang ag y bo modd a'u bod yn cael cymaint o effaith ag y bo modd.

Wrth gomisiynu gwasanaethau, dylech:

- Ddilyn eich gweithdrefnau caffael lleol chi
- Cymryd yr holl gamau rhesymol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cynrychioli'r gwerth am arian gorau a'u bod yn strategol o ran eu natur
- Osgoi prynu nwyddau a gwasanaethau yn ôl y galw pryd bynnag y bo modd
- Sicrhau y comisiynir yr holl wasanaethau yn unol â Chanllawiau Rheolaeth Ariannol Teuluoedd yn Gyntaf, a gyhoeddir bob blwyddyn
- Rhoi sylw penodol i'r adran yn yr arweiniad sy'n sôn am wariant anghymwys. Mae'r adran hon wedi cael ei chynnwys isod, er mwyn hwyluso cyfeirio

*Dylid canolbwyntio cronfeydd Teuluoedd yn Gyntaf ar ddarparu neu gynorthwyo darpariaeth elfennau allweddol y rhaglen. Byddai'n amhriodol defnyddio Cronfeydd Teuluoedd yn Gyntaf at ddibenion eraill. Mae enghreifftiau o weithgareddau anghymwys yn cynnwys:*

- *Gwyliau teuluol neu fel grŵp (ac eithrio egwyl byr a gwasanaethau seibiant a gomisiynir trwy gyfrwng elfen Anabledd y rhaglen)*
- *Prynu dodrefn neu offer domestig ar gyfer unigolion sy'n cael budd gan y cynllun, e.e. peiriannau golchi dillad, microdonnau, soffas ac ati.*
- *Parseli bwyd (ac eithrio darparu byrbrydau a lluniaeth, pan y'u defnyddir fel offer ymgysylltu ar gyfer teuluoedd)*
- *Darparu gwasanaethau statudol*
- *Prynu offer TGCh ar gyfer unigolion sy'n cael budd o'r cynllun.*

Efallai y bydd gan rai teuluoedd sy'n cael eu cynorthwyo trwy Deuluoedd yn Gyntaf anghenion sy'n awgrymu y byddent yn cael budd gan o leiaf rai o'r pethau uchod. Bydd angen i chi sicrhau bod gennych chi gysylltiadau da gydag asiantaethau a sefydliadau perthnasol y mae eu rôl nhw'n ymwneud â chynorthwyo teuluoedd yn y fath ffordd, fel bod modd iddynt gael y gwasanaethau hyn mewn ffordd amserol, law yn llaw ag unrhyw becynnau cymorth a ddarparir trwy'r rhaglen hon. Dim ond yn yr achosion mwyaf eithriadol y dylid defnyddio cronfeydd Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn prynu dodrefn, offer domestig neu barseli bwyd, a hynny ar ôl sicrhau cytundeb eich Rheolwr Cyfrif.

### 3.5 Setiau Dysgu

Roedd canllawiau'r rhaglen wreiddiol yn disgwyl i'r holl awdurdodau lleol gymryd rhan weithredol yn y broses o ddatblygu gweithgarwch dysgu a rennir ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, a'u bod yn gallu dangos lle y maent wedi manteisio ar, defnyddio a chyfrannu at ddysgu ar y cyd. Pennwyd y gofyniad hwn yn wreiddiol o ganlyniad i natur arloesol y rhaglen. Roedd yn rhoi cyfle i bartneriaid awdurdodau

lleol i ddatblygu strwythurau ar gyfer dysgu myfyriol, yn ogystal â herio a chynorthwyo yn ystod cam cyntaf y rhaglen, er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau i deuluoedd.

Canfu tystiolaeth werthuso bod diwylliant dysgu cadarn ar draws rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf nawr, a bod y dysgu mwyaf sylweddol yn digwydd trwy ddulliau gweithredu mwy anffurfiol a thrwy fonitro data monitro ac adborth amser real mewn ffordd ofalus.

Felly, er ein bod yn disgwyl i chi barhau i ddangos ymrwymiad at ddysgu parhaus a rhannu arfer gorau, ni fydd gofyn i chi ddatblygu setiau dysgu gweithredol strwythuredig mwyach.  Gallai dysgu pellach gynnwys ffurfio cysylltiadau y tu hwnt i'ch ardaloedd lleol er mwyn dysgu gan awdurdodau eraill y mae gennych chi rywbeth yn gyffredin â nhw.  Mae dysgu parhaus yn hanfodol ar gyfer datblygiad parhaus Teuluoedd yn Gyntaf ond rydym yn cydnabod bod sawl ffordd o gyflawni hyn, a byddwn yn disgwyl i chi ystyried yr hyn a fydd yn gweithio orau i'ch awdurdod chi, gan gymryd camau priodol.

# 4. Comisiynu strategol – Rhianta

**Mae'r adran hon yn nodi ein disgwyliadau ynghylch comisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar rianta. Dylid darllen yr adran hon law yn llaw â chanllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru,** Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ac ymgysylltiad a chymorth

## 4.1 Beth yw rhianta?

Yn ei ffurf fwyaf sylfaenol, mae rhianta yn cyfeirio at yr agweddau ar fagu plentyn, o'u genedigaeth nes byddant yn oedolyn. Fodd bynnag, mae arfer rhianta yn llawer mwy cymhleth. Mae rhieni'n gyfrifol am hyrwyddo datblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol, ariannol a deallusol plentyn. Maent yn gyfrifol am sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch, eu dysgu a'u haddysg, a'u paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion cynhyrchiol. Mae rhianta da yn creu amgylchedd cartref sefydlog ac sy'n meithrin, mae'n pennu ac yn cynnal terfynau priodol, mae'n cynnig esiampl gadarnhaol ac mae'n rhan gyson a gweithredol o fywyd plentyn.

## 4.2 Sut mae modd i Deuluoedd yn Gyntaf gynorthwyo rhieni?

Gall nifer o ffactorau effeithio ar allu rhywun i rianta mewn ffordd effeithiol, ac mae angen cymorth ychwanegol ar nifer o rieni er mwyn eu helpu i ymdopi â phwysau bod yn rhiant. Gall Teuluoedd yn Gyntaf gynorthwyo rhieni mewn nifer o ffyrdd, o ddarparu gwybodaeth a chyngor i ddarparu ymyriadau rhianta wedi'u seilio ar dystiolaeth.

## 4.3 Nodau craidd cymorth rhianta

Wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n darparu cymorth ar gyfer rhianta, bydd hi'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo ffactorau diogelu a/neu leihau risgiau i blant, a'u bod yn anelu at gyflawni'r canlynol:

- Datblygu agweddau, uchelgais a chydnerthedd cadarnhaol
- Gwella sgiliau rhianta cadarnhaol
- Meithrin hyder a sgiliau rhieni wrth ddarparu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref a chynorthwyo'u plentyn gyda'u dysgu
- Gwella perthnasoedd rhwng rhieni a phlant a rhwng rhieni â'i gilydd
- Meithrin hyder rhieni yn eu rôl rhianta
- Cryfhau dealltwriaeth rhieni o ddatblygiad plant
- Cynorthwyo rhieni i sicrhau iechyd meddwl da
- Cynorthwyo rhieni i sicrhau lles emosiynol cadarnhaol

Dylai'r gwasanaethau a ddatblygwch ymateb i'r anghenion a nodwyd ymhlith rhieni yn eich cymunedau lleol. Dylid rhoi'r ffocws pennaf bob amser ar deuluoedd y mae

angen cymorth wedi'i dargedu arnynt, ond dylid cofio bod modd i wasanaethau mynediad agored neu wasanaethau a dargedir yn y ffordd leiaf ag y bo modd, fod o ddefnydd wrth hyrwyddo ymgysylltu cynnar a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni, a bydd angen i chi gadw hyn mewn cof wrth ystyried y ffyrdd mwyaf priodol o ddarparu gwasanaethau.

Efallai y byddwch yn dymuno ystyried dod ynghyd â gwasanaethau y tu hwnt i Deuluoedd yn Gyntaf er mwyn cynnig llwybr cymorth cydlynol i rieni. Byddai hwn yn nodi pa gymorth sydd ar gael i rieni ar draws y sbectrwm angen er mwyn hyrwyddo ymgysylltu ar draws gwasanaethau ac annog y rhieni hynny y mae angen ychydig help ychwanegol arnynt, i'w geisio. Os byddwch yn penderfynu gwneud hyn, rhaid i chi sicrhau eu bod yn hyblyg ac yn cael eu seilio ar anghenion, er mwyn darparu'r cymorth gorau i deuluoedd yn eich ardal leol chi. Rhaid bod gwasanaethau'n integredig er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Rhaid egluro'r llwybr i'r teulu bob amser ar ddechrau eu taith, fel eu bod yn gwybod yr hyn i'w ddisgwyl a phryd.

Mae'n bwysig bod modd i rieni fanteisio ar gymorth a ddarparir mewn ffyrdd sy'n iawn iddyn nhw, felly dylai amrediad o ddewisiadau fod ar gael hefyd er mwyn bodloni anghenion ac amgylchiadau unigol rhieni. Gallai hyn gynnwys rhaglenni rhianta wedi'u seilio ar dystiolaeth, gwybodaeth, cymorth un-i-un, grwpiau rhianta anffurfiol neu ffurfiol. Er enghraifft, er bod cymorth un-i-un yn ddull poblogaidd o gynnig cymorth, cymorth grŵp yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol yn aml, ac mae'n gallu cynnig y fantais ychwanegol o helpu teuluoedd i greu eu rhwydweithiau cymorth cynaliadwy eu hunain, yn ogystal â lleihau'r ymdeimlad o unigrwydd y mae nifer o rieni yn ei deimlo.

Dylai'r cymorth fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau[1] a thystiolaeth[2] bob amser, a dylai gyd-fynd â nodau craidd rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

[1] Mae dull gweithredu wedi'i seilio ar gryfderau yn digwydd pan fydd gweithwyr allweddol yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar gydnerthedd, ffactorau diogelu a chryfderau.
[2] Mae arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth yn gyfuniad o arbenigedd ymarferwyr a defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf gan dystiolaeth gadarn gwaith ymchwil allanol a gwaith gwerthuso annibynnol wrth wneud penderfyniadau am sut y dylid gweithio gyda rhieni unigol.

### 4.4 Themâu cymorth

**Disgwylir i chi gomisiynu gwasanaethau i rieni dan y themâu canlynol sy'n gysylltiedig ag oed:**

- **Beichiogi a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar ar gyfer rhieni nes bydd eu plant yn 7 oed**
- **Cymorth ar gyfer rhieni y mae eu plant yn y cyfnod plentyndod canol, sef 7-12 oed**
- **Cymorth ar gyfer rhieni pobl ifanc yn eu harddegau**

**Dylai'r themâu trawsbynciol canlynol gynnig sylfaen ar gyfer pob un o'r rhain:**

- **Cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd agored i niwed**
- **Damcaniaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth ynghylch datblygiad plant**
- **Rhianta cadarnhaol**
- **Cymorth gyda pherthnasoedd**
- **Cydnerthedd**

### 4.5 Themâu sy'n gysylltiedig ag oed

Mae pob cyfnod yn ystod bywyd plentyn yn dwyn sialensiau unigryw i rieni, a gallai amrediad o ffactorau arwain at sefyllfa lle na fyddant yn ymateb i'w plant neu byddant yn ymddwyn mewn ffordd esgeulus tuag atynt. Mae'n bwysig bod rhieni'n cael eu cynorthwyo fel bod modd iddynt ymateb i'r sialensiau hyn mewn ffordd hyderus mor gynnar ag y bo modd.

Dylai amrediad o ddarpariaeth fod ar gael i rieni ar draws y themâu hyn, sy'n cynorthwyo datblygiad arferion rhianta ymatebol ac sy'n meithrin, ac sy'n gwella sgiliau a hyder rhieni. Er ein bod wedi cynnwys tair thema glir yma, sy'n gysylltiedig ag oed, bydd modd i chi ddatblygu themâu cymorth sydd fwyaf addas i'ch ardaloedd lleol chi, ar yr amod eu bod yn cynnwys y cyfnod o'r adeg feichiogi nes y bydd plentyn yn 18 oed (25 oed i rieni plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol).

<u>Beichiogi a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar ar gyfer rhieni nes bydd eu plant yn 7 oed</u>

Dylid cynllunio darpariaeth amrediad o gymorth i rieni beichiog a rhieni newydd er mwyn helpu rhieni i ddeall pwysigrwydd perthnasoedd cynnar ar gyfer iechyd a lles eu baban, a hyrwyddo ymlyniad ac ymatebolrwydd. Nid yn unig y mae gwneud y peth cywir yn gynnar yn gwella ansawdd y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn, ond fe allai leihau'r risgiau y bydd rhieni'n methu ymateb i anghenion eu plentyn yn nes ymlaen hefyd.

Mae'n hanfodol bod cysylltiadau cadarn yn cael eu ffurfio gyda'r rhai sy'n cael y cyswllt mwyaf gyda darpar rieni, yn enwedig gwasanaethau bydwreigiaeth, ac yn dilyn genedigaeth, gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol ac amenedigol ac

ymwelwyr iechyd, er mwyn annog cyfeiriadau amserol a dealltwriaeth well o'r mathau o gymorth y mae modd eu darparu trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf. Dylai cymorth fod ar gael i'r holl ddarpar rieni ac yn arbennig, i'r rhai sydd ar fin dod yn rhieni am y tro cyntaf, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael iddynt a'u hannog i ymateb i help os bydd ei angen arnynt.

Pan fydd plant yn cael profiad o rianta anymatebol, esgeulus ac anghyson, maent yn fwy tebygol o ddatblygu problemau ymlyniad a dioddef nam ar eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol. Felly, dylai cymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar ganolbwyntio ar alluogi rhieni i ddatblygu sgiliau rhianta ymatebol ac sy'n meithrin, er mwyn gwella'u hyder wrth fagu eu plant.

Mae rhieni'n fwy tebygol o ymateb mewn ffordd gadarnhaol i ymyriadau cymorth rhianta os byddant yn teimlo fel pa baent yn bartneriaid yn y broses, a bydd angen i chi ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn ar gyfer y teuluoedd yn eich ardal leol chi. Er enghraifft, gall sesiynau megis “aros a chwarae”, “iaith a chwarae” a “rhifau a chwarae” gynorthwyo rhieni i ddeall pwysigrwydd cynorthwyo dysgu eu plentyn trwy chwarae, a'u hyder yn hyn o beth. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwahanol ddull gweithredu ar y dechrau, er enghraifft, cymorth anffurfiol neu gymorth yn y cartref, sy'n gallu arwain at ddysgu mwy strwythuredig yn nes ymlaen.

Cymorth ar gyfer rhieni y mae eu plant yn y cyfnod plentyndod canol, sef 7-12 oed

Mae blynyddoedd canol bywyd plentyn yn gyfnod pwysig ar gyfer datblygiad eu hunan-barch, eu hymdeimlad o hunaniaeth ac er mwyn meithrin annibyniaeth. Bydd plant yn wynebu newidiadau enfawr yn ystod y cyfnod hwn, yn rhai corfforol, cymdeithasol a meddyliol, a byddant yn dod yn llawer mwy ymwybodol o'u hunain, yn enwedig mewn perthynas â'r byd o'u cwmpas, sy'n gallu peri iddynt fod yn agored i niwed gan newidiadau sy'n digwydd ac y maent y tu hwnt i'w rheolaeth. Yn ogystal, rhaid iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn ystod y cyfnod hwn. Nid yw cysur a chynefindra'r ysgol gynradd yno mwyach, ac mae hyn yn gallu bod yn heriol i blant a'u rhieni wrth iddynt ymgyfarwyddo â'r patrymau newydd a'r perthnasoedd sy'n gysylltiedig â mynychu ysgol uwchradd.

Mae'r ffordd y caiff plant eu cynorthwyo yn ystod y cyfnod hwn yn hollbwysig i'w canlyniadau hirdymor o ran eu perfformiad academaidd a'u hymddygiad, yn ogystal â'u hiechyd corfforol a meddyliol. Mae perthnasoedd teuluol cefnogol yn hollbwysig wrth helpu i siapio lles cymdeithasol ac emosiynol cadarnhaol ymhlith plant. Felly, dylech ystyried y ffyrdd gorau o gynorthwyo rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn deall cymhlethdod y newidiadau y mae eu plentyn yn mynd trwyddynt a'u rôl pwysig wrth helpu i dywys eu plentyn trwy'r sialensiau hyn.

Cymorth ar gyfer rhieni pobl ifanc yn eu harddegau sy'n 13-18 oed (25 oed ar gyfer y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol)

Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn mynd trwy newidiadau niwrolegol, corfforol, emosiynol a chymdeithasol sylweddol, sy'n gallu effeithio ar berthnasoedd rhwng

rhieni a phlant. Mae hwyliau oriog, lefelau hunan-barch isel, ymosodedd a hyd yn oed iselder yn nodweddiadol o'r newidiadau y mae pobl ifanc yn eu harddegau yn mynd trwyddynt, ac mae'n hanfodol bod rhieni'n meddu ar ddealltwriaeth o'u rôl wrth gynorthwyo'u plentyn trwy'r cyfnod hwn, hyd yn oed os byddant yn teimlo bod eu plentyn yn ymbellhau oddi wrthynt wrth iddynt aeddfedu. Mae rhianta cefnogol yn lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn eu harddegau yn camddefnyddio sylweddau, yn camweddu, ac yn dioddef iechyd meddwl gwael, hunan-barch isel a pherfformiad academaidd gwael. Felly, bydd angen i chi ystyried y mathau o gymorth y dylid eu darparu er mwyn helpu rhieni yn eich ardal leol chi i wella'u sgiliau wrth gynorthwyo plant yn eu harddegau trwy'r blynyddoedd heriol hyn.

## 4.6 Themâu trawsbynciol

Cymorth ymyrraeth gynnar

Mae ymyrraeth gynnar yn egwyddor allweddol o fewn Teuluoedd yn Gyntaf ac mae'n rhaid cynllunio gwasanaethau er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltu ag y bo modd â theuluoedd mor gynnar ag y bo modd ac yn ddelfrydol, dylai gwasanaethau wedi'u targedu fod ar gael law yn llaw â gwasanaethau mynediad agored.

Mae teuluoedd sy'n byw mewn amgylchiadau anodd, y gallent gynnwys tlodi, y ffaith eu bod heb waith, profedigaeth, camddefnyddio alcohol neu sylweddau, trais domestig, iechyd corfforol a/neu feddyliol gwael ac arwahanrwydd cymdeithasol, mewn mwy o berygl o fod yn methu gofalu am eu plant mewn ffordd ddigonol. Bydd angen i chi ddangos strategaeth eglur er mwyn targedu'r teuluoedd hynny yn eich ardal leol sydd fwyaf mewn perygl, gan ddangos dull gweithredu rhagweithiol tuag at annog a chynnal gweithgarwch ymgysylltu gyda gwasanaethau. Yn ogystal, bydd angen eich bod yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r rhwystrau sy'n atal rhieni rhag ymgysylltu, gan ddatblygu dulliau o gynorthwyo rhieni i oresgyn y rhwystrau hyn.

Damcaniaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth ynghylch datblygiad plant

Mae nifer o raglenni rhianta ar gael sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, ac y maent wedi'u seilio ar ddamcaniaethau amrywiol ynghylch datblygiad plant (e.e. damcaniaethau ynghylch ymlyniad, dysgu cymdeithasol ac arddulliau rhianta), er mwyn annog technegau rhianta cadarnhaol a galluogi rhieni i ymateb i anghenion plentyn yn ystod pob cyfnod o'u bywyd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhaglenni'n fwy tebygol o fod yn effeithiol os ydynt yn cael eu seilio ar egwyddorion damcaniaethol cadarn a gefnogir gan waith ymchwil cadarn ym maes datblygiad plant. Mae rhaglenni rhianta yn canolbwyntio ar wella sgiliau rhianta trwy gynorthwyo rhieni i ddeall effaith eu harferion rhianta ar ymddygiad eu plentyn, a'u cynorthwyo i gynyddu gweithgarwch rhyngweithio cadarnhaol gyda'u plentyn a lleihau arferion anghyson a gorfodol.

Gall rhaglenni rhianta wedi'u seilio ar dystiolaeth lwyddo i helpu rhieni i feithrin eu hyder a'u bodlonrwydd, yn ogystal â gwella'u lles. Yn ogystal, gallant gael effaith gadarnhaol ar blant ifanc sydd â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol.

Felly, dylech ystyried y mathau o raglenni rhianta y byddent fwyaf buddiol i anghenion rhieni yn eich ardaloedd lleol, gan ystyried y ffordd orau o'u darparu fel rhan o amrediad y gwasanaethau y dylent fod ar gael iddynt. Dylech ystyried a oes tystiolaeth gadarn bod yr ymyrraeth yn debygol o wella canlyniadau rhieni neu blant; a yw'n gost-effeithiol ac a yw ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar sgiliau priodol i'w ddarparu. Yn Atodiad B *Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar Ymgysylltiad a Chymorth,* mae modd gweld rhestr fanwl o'r rhaglenni argymelledig wedi'u seilio ar dystiolaeth sydd ar gael, a dylech droi at hon wrth benderfynu pa raglenni i'w darparu.

Rhianta cadarnhaol

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o arddulliau rhianta cadarnhaol a dewisiadau amgen i gosb corfforol er mwyn helpu i dawelu sefyllfaoedd heriol, gan gymeradwyo'r farn bod rhianta awdurdodol (llawer o gynhesrwydd, rheolaeth gadarnhaol/pendant a disgwyliadau uchel ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau) o fudd yn ystod pob cyfnod yn natblygiad plentyn. Mae'r negeseuon hyn yn ymddangos yn ymgyrch rhianta cadarnhaol Llywodraeth Cymru, Magu Plant Rhowch amser iddo, sy'n cynnwys adnoddau i rieni ac ymarferwyr. Bydd angen i chi sicrhau bod y gwasanaethau rhianta a ddarparir trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf yn eich ardal chi yn cyd-fynd â'r ymgyrch hon, gan hyrwyddo a chymeradwyo'r negeseuon ynddi.

Cymorth gyda pherthnasoedd

Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni yn ffactor allweddol wrth hyrwyddo lles plant. Mae perthnasoedd cyplau yn chwalu wedi cael ei gysylltu â nifer o effeithiau negyddol ar blant, gan gynnwys anfantais cymdeithasol-economaidd, cyflawniad addysgol is, problemau ymddygiadol ac iechyd corfforol a meddyliol gwael. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau negyddol hirdymor hyn yn berthnasol i leiafrif o blant. Er y gall plant deimlo gofid am y tymor byr pan fydd eu rhieni'n gwahanu, gall y mwyafrif addasu i'r newidiadau hyn i'w hamgylchiadau. Gall rhieni yn gwahanu ac yn ysgaru, sy'n arwain at newidiadau dro ar ôl tro yn strwythur y teulu, gael effaith negyddol ar ganlyniadau plentyn. Yn yr un modd, mae plant sy'n cael eu magu ar aelwyd lle y mae gwrthdaro heb ei ddatrys rhwng rhieni yn rhywbeth cyffredin, yn fwy tebygol o gael anhawster wrth ffurfio perthnasoedd sefydlog eu hunain, ac mae bod yn dyst i wrthdaro cyson ac na chaiff ei ddatrys mewn ffordd dda, yn gallu cael effaith niweidiol ar les emosiynol a chorfforol plentyn yn y tymor hir.

Mae perthnasoedd iach yn bwysig i unrhyw un sy'n ymwneud â magu plant, gan gynnwys aelodau'r teulu estynedig. Mae perthnasoedd gydag aelodau teuluol estynedig yn hynod o bwysig hefyd, yn enwedig pan fo'r aelodau hynny'n cael cyswllt gweithredol â bywyd plentyn. Dylai darpariaeth fod ar gael, yn ôl yr angen, i helpu'r holl rai sy'n cyflawni rôl rhianta neu gynorthwyo, i ddeall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol a rheoli perthnasoedd cadarnhaol, a'r effaith y gall y rhain ei chael ar y plentyn.

I rieni sy'n gwahanu ac sydd wedi gwahanu, gallai hyn gynnwys cymorth er mwyn deall a lleihau'r effaith niweidiol y gall gwahanu ei gael ar eu plant gymaint ag y bo modd. Gallai cymorth gael ei ddarparu hefyd er mwyn helpu rhieni y gallent fod yn cael anawsterau wrth ymdopi â materion eraill mewn perthynas â'u penderfyniad i wahanu, megis trefniadau gofal ar gyfer eu plant. Bydd angen ystyried y ffordd orau o gynnig cymorth er mwyn helpu teuluoedd yn ystod y cyfnodau heriol hyn.

Cydnerthedd

Er y dylai datblygu cydnerthedd fod yn nod ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarparir i rieni, rydym wedi ei gynnwys yma er mwyn amlygu pwysigrwydd cydnerthedd wrth greu amgylcheddau sefydlog yn y cartref i blant a helpu rhieni i ddelio â straen. Mae ymchwil wedi amlygu'r ffactorau sydd fwyaf tebygol o gynyddu cydnerthedd. Mewn perthynas â rhianta, mae hyn yn cynnwys:

- Perthynas dda gydag un rhiant
- Rhoi llawer o sylw i'r baban yn ystod y flwyddyn gyntaf
- Rhwydwaith ehangach o gymorth cymdeithasol
- Perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni a'u plant
- Strwythur a rheolau ar yr aelwyd.

Mae cydnerthedd rhieni yn cael effaith gadarnhaol ar y rhiant, y plentyn a'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn. Trwy reoli achosion straen, bydd rhieni'n teimlo'n well a gallant gynnig sylw mwy meithriniol i'w plentyn, sy'n hyrwyddo ymlyniad emosiynol diogel. Yn ogystal, maent yn teimlo bod modd iddynt fodloni eu hanghenion yn well ac maent yn teimlo fel pe baent wedi cael eu grymuso i symud ymlaen. Yn ei dro, mae hyn yn meithrin datblygiad cydnerthedd ymhlith plant pan fyddant dan straen.

Mae cydnerthedd yn rhywbeth y mae ei angen ar bob rhiant er mwyn iddynt allu rheoli sefyllfaoedd o straen mewn ffordd effeithiol, gan helpu sicrhau bod gan deuluoedd well siawns o sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hir. Disgwyliwn i chi sicrhau bod cydnerthedd yn thema ganolog sy'n rhedeg trwy'r holl wasanaethau a ddarparir i rieni.

### 4.7 Pa fathau o gymorth y dylid eu darparu?

Mae modd darparu cymorth rhianta mewn amrywiaeth o ffyrdd a bydd angen i chi ystyried y dulliau gweithredu mwyaf priodol er mwyn bodloni anghenion teuluoedd yn eich ardaloedd lleol chi. Yn fras, fodd bynnag, byddem yn disgwyl gweld cymorth yn cael ei ddarparu sy'n cynnwys rhai o'r canlynol neu bob un o'r canlynol, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r rhain:

- **Rhaglenni rhianta strwythuredig wedi'u seilio ar drefniant grŵp a thystiolaeth.** Rhaglenni yw'r rhain lle y ceir tystiolaeth annibynnol sy'n dangos canlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Mae gan nifer o'r rhain dystiolaeth hefyd eu bod yn gost-effeithiol. Efallai yr hoffech ddatblygu unrhyw ddarpariaethau sy'n bodoli

eisoes er mwyn ymestyn cyrhaeddiad y gwasanaethau hyn a'i gynyddu gymaint ag y bo modd, er mwyn cynyddu nifer y teuluoedd y gallant fanteisio arnynt.

- **Cymorth rhianta anffurfiol.** Mae modd defnyddio'r math hwn o gymorth er mwyn ymgysylltu rhieni â gwasanaethau a'u paratoi ar gyfer ymyriadau mwy ffurfiol, ac mae'n gallu bod yn ffordd effeithiol o feithrin ymddiriedaeth gyda rhieni sy'n ofidus neu'n amharod i gael cymorth.
- **Cymorth galw heibio anffurfiol.** Gall y math hwn o gymorth fod yn offeryn effeithiol er mwyn ymgysylltu â rhieni a'u cyflwyno i fathau mwy strwythuredig o gymorth rhianta. Yn ogystal, gall fod yn ffordd ddefnyddiol o gadw mewn cysylltiad â theuluoedd ac annog y defnydd o dechnegau rhianta cadarnhaol mewn lleoliad llai ffurfiol. Gall gynnig y cyfle i rieni drafod eu pryderon gyda staff a cheisio cyngor a gwybodaeth ymarferol wrth roi'r cyfle i staff arsylwi ymddygiad fel rhieni a nodi meysydd lle y gallai cymorth mwy arbenigol fod o fudd.
- **Cymorth un i un.** Dylai'r cymorth hwn fod ar gael i rieni na fyddant yn cael budd gan ymyriadau grŵp efallai a/neu y bydd gofyn iddynt gael pecyn cymorth wedi'i deilwra'n fwy efallai. Dylai cymorth un-i-un mewn lleoliad cartref fod ar gael i'r teuluoedd hynny nad oes modd iddynt fynychu lleoliadau grŵp efallai am resymau megis diffyg trafnidiaeth. Mae Atodiad D *Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar Ymgysylltiad a Chymorth* yn cynnwys rhestr awgrymedig o gymorth rhianta un-i-un a rhaglenni ymweld â'r cartref. Dylai'r holl gymorth un-i-un neu yn y cartref fodloni'r meini prawf canlynol:
    - Cael ei ddarparu gan staff sy'n meddu ar gymwysterau addas, sydd wedi cael hyfforddiant neu sy'n gymwys
    - Cael ei seilio ar resymeg gadarn
    - Casglu adborth gan rieni ynghylch a yw wedi cyflawni ei nodau
    - Meddu ar gynllun sesiwn dysgu a dull cyflawni awgrymedig
    - Nodi nodau a disgwyliadau
    - Nodi pwy fydd yn cael yr ymyrraeth
    - Bodloni dibenion craidd cymorth
- **Gwasanaethau cymorth gyda pherthnasoedd.** Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau cwnsela a/neu gyfryngu neu wasanaethau therapiwtig eraill. Yn ogystal, efallai y bydd staff sy'n darparu rhaglenni wedi'u seilio ar ymchwil yn fedrus ym maes darparu cymorth cyson ac effeithiol gyda pherthnasoedd i rieni. Gall y gwasanaethau hyn helpu rhieni (os ydynt gyda'i gilydd neu wedi gwahanu) i ddeall eu perthynas gyda'i gilydd a'r effaith y gall eu perthynas ei chael ar y plentyn. Gall y math hwn o gymorth fod o fudd i rieni sydd wedi dioddef ACEs yn ystod eu plentyndod nhw hefyd, neu y gallent fod yn mynd trwy ddigwyddiad a fydd yn newid eu bywyd, megis partner yn y carchar neu bartner yn cael eu hanfon i wlad dramor, a allai effeithio ar eu gallu i fagu eu plant mewn ffordd effeithiol.

### 4.8 Grwpiau blaenoriaeth

**Er bod anghenion pob rhiant yn bwysig, efallai bod statws neu sefyllfa rhai rhieni yn peri iddynt fod yn arbennig o agored i niwed, ac efallai y bydd gofyn iddynt gael cymorth mwy arbenigol.**

**Bydd grwpiau blaenoriaeth yn amrywio o ardal i ardal. Bydd angen i chi nodi'r grwpiau hynny y maent yn yr angen mwyaf yn eich ardaloedd, gan sicrhau'ch bod yn ystyried eu gofynion nhw wrth i chi gynllunio a chomisiynu gwasanaethau. Gallai'r rhain gynnwys:**

- **Rhieni anabl**
- **Teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig**
- **Teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y ffaith bod rhiant yn y carchar**
- **Tadau**
- **Teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr**
- **Rhieni sydd ag anawsterau dysgu (wedi cael diagnosis neu'n cael ei amau)**
- **Rhieni plant anabl**
- **Rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl**
- **Rhieni sy'n dioddef materion camddefnyddio alcohol neu sylweddau**
- **Teuluoedd sy'n ffoaduriaid/ceiswyr lloches**
- **Rhieni ifanc**

<u>Rhieni anabl</u>

Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rieni sydd ag anabledd corfforol neu synhwyraidd neu salwch hirdymor er mwyn iddynt gyflawni eu rôl yn yr un ffordd â rhieni eraill heb anableddau. Bydd angen i chi ystyried anghenion unigol rhieni anabl a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol er mwyn eu galluogi i fanteisio ar wasanaethau. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod lleoliadau'n hygyrch a bod deunyddiau'n cael eu paratoi mewn ffurf hygyrch.

<u>Teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig</u>

Mae nifer o ffyrdd y gall cam-drin domestig a gwrthdaro anghyfeillgar arall, ond heb fod yn dreisgar, gael effaith negyddol ar ansawdd rhianta. Gall plant dyfu i fyny gan gredu bod trais ac ymosodoldeb yn rhan dderbyniol ac arferol o ddatrys gwrthdaro mewn perthnasoedd, ac fe allent wynebu rhianta mwy llym ac anghyfeillgar gan y rhiant sy'n cael eu cam-drin a/neu'r sawl sy'n cam-drin. Neu, gallai'r rhiant sy'n cael eu cam-drin ymbellhau o'r plentyn, gan ymddwyn mewn ffordd fwy oeraidd tuag atynt wrth iddynt geisio ymdopi â'r cam-drin. Yn ogystal, gall profiad cam-drin domestig arwain at anghysondeb wrth rianta, yn enwedig o ran y terfynau a'r disgwyliadau a bennir ar gyfer plant. Gall bod yn dyst i gam-drin domestig ynddo'i hun gael effeithiau hirdymor niweidiol ar blant.

Dylech sicrhau bod rhagofalon priodol mewn grym, gan gynnwys gweithgarwch sgrinio effeithiol yn ystod y cyfnod asesu. Dylid hyfforddi staff i adnabod arwyddion cam-drin domestig ac i ymateb mewn ffordd briodol cyn gynted ag y bo modd. Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn amlinellu gofynion Llywodraeth Cymru ynghylch hyfforddi am y meysydd hyn ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector arbenigol.

Os nad ydych chi wedi comisiynu gwasanaethau'n benodol ar gyfer teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig, bydd angen i chi sicrhau bod staff yn gwybod ble y gall teuluoedd gael help a chael perthynas waith gadarn gyda'r gwasanaethau hynny er mwyn sicrhau bod modd iddynt ofyn am gymorth priodol ac amserol.

Teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y ffaith bod rhiant yn y carchar

Mae plant carcharorion a'u teuluoedd yn grŵp hynod o agored i niwed. Mae teuluoedd carcharorion yn fwy tebygol o wynebu anawsterau ariannol, amhariad ar eu sefyllfa tai, problemau iechyd meddwl neu gorfforol ac arwahanrwydd cymdeithasol a stigma. Gall ansawdd bywyd teuluol gael ei effeithio mewn ffordd ddifrifol pan fydd rhiant yn cael eu carcharu a gall teuluoedd wynebu cryn dipyn o ansicrwydd, sy'n gallu peri straen i'r rhiant sydd ar ôl. Yn ogystal, gall plant carcharorion ddioddef gofid ac ansicrwydd, ac yn aml, byddant yn ei chael hi'n anodd ymdopi ag absenoldeb rhiant (sy'n aml yn sydyn ac yn annisgwyl). Gall ymweld â rhiant yn y carchar fod yn brofiad trawmatig a llawn straen i blant, ac efallai y byddant yn teimlo na allant gyfleu'r gofidiau hyn i'r rhiant sydd ar ôl, rhag ofn y byddant yn peri straen pellach.

Disgwyliwn i chi weithio mewn ffordd ragweithiol i nodi teuluoedd y gallent fod yn cael eu heffeithio gan y ffaith bod rhiant yn y carchar fel rhan o'r broses asesu. Yn aml iawn, efallai na fydd teuluoedd yn rhoi'r wybodaeth hon o'u gwirfodd o ganlyniad i'r ffaith ei bod yn peri embaras iddynt neu o ganlyniad i'w pryderon ynghylch dioddef stigma, ond efallai y byddant yn fwy tebygol o ymateb os gofynnir y cwestiwn iddynt yn uniongyrchol. Bydd angen i chi sicrhau bod teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y ffaith bod rhiant yn y carchar yn cael cymorth a gwybodaeth berthnasol, er enghraifft, trwy gyfrwng cysylltiadau â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y teuluoedd hyn. Yn ogystal, efallai y byddwch yn dymuno ystyried a oes angen comisiynu gwasanaethau penodol trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf.

Tadau

Gall tadau (preswylio neu heb fod yn preswylio, biolegol neu lys-tadau) gael effaith sylweddol ar fywydau plant. Felly, mae'n bwysig eich bod yn sicrhau eich bod yn ystyried pwysigrwydd y berthynas rhwng tadau a phlant wrth ystyried pa gymorth y dylid ei ddarparu i rieni yn eich ardal leol. Rydym yn gwybod bod nifer o fanteision i blant os yw eu tad yn ymwneud â'u bywydau mewn ffordd weithredol wrth iddynt dyfu i fyny, ond yn aml, bydd tadau'n teimlo bod gwasanaethau cymorth yn cael eu

cynllunio er mwyn cynorthwyo mamau yn bennaf, ac efallai y byddant yn amharod i fynychu gwasanaethau o ganlyniad.  Bydd yn bwysig eich bod yn datblygu strategaethau er mwyn annog a chynyddu gweithgarwch ymgysylltu tadau.  Yn aml, bydd dulliau ymgysylltu effeithiol gyda thadau yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir er mwyn ymgysylltu â mamau, a bydd angen i chi ystyried pa ddulliau y dylid eu mabwysiadu er mwyn bodloni anghenion tadau yn eich ardal leol.  Mae Papur Arfer Da Llywodraeth Cymru, Strategaethau ar gyfer gweithio gydathadau yn cynnig nifer fawr o syniadau ymarferol.

Teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr

Mae nifer o wahanol grwpiau yn dod dan deitl Sipsiwn a Theithwyr.  Mae'r rhain yn cynnwys Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig, Sipsiwn a Theithwyr Albanaidd, Sipsiwn a Theithwyr Cymreig, Teithwyr Newydd, Badwyr ac eraill sy'n byw ar gychod a Siewmyn Teithiol.  Yn gyffredinol, fe'u hystyrir fel y grwpiau sydd fwyaf ar y cyrion ac sy'n dioddef yr arwahanrwydd cymdeithasol mwyaf mewn cymdeithas, ac er gwaethaf gwerthoedd diwylliannol cryf o ran pwysigrwydd yr uned deuluol a pherthnasoedd cymunedol cryf, maent yn aml yn dioddef canlyniadau gwael mewn perthynas ag iechyd, addysg a thai.

Gall ymgysylltu â'r grwpiau hyn fod yn heriol am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys drwgdybiaeth hanesyddol o bobl mewn awdurdod ac ofn stigma a rhagfarn. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn deall pam bod y rhwystrau hyn yn bodoli, gan weithio gyda gwasanaethau a sefydliadau sy'n ymgysylltu â'r teuluoedd hyn er mwyn sicrhau bod modd darparu cymorth lle bo'r angen ac mewn ffyrdd sy'n briodol i ddiwylliant y grwpiau hyn.

Rhieni sydd ag anawsterau dysgu (Wedi cael diagnosis neu'n cael ei amau)

Yn aml, bydd rhieni sydd wedi cael diagnosis anawsterau dysgu neu pan fo anawsterau dysgu yn cael eu hamau, yn wynebu amrediad o sialensiau gan gynnwys tlodi, arwahanrwydd cymdeithasol, straen, problemau iechyd meddwl, llythrennedd isel a/neu faterion cyfathrebu.  Yn ogystal, efallai y byddant yn amharod i geisio cymorth gyda materion rhianta oherwydd ofnau y bydd hyn yn codi pryderon amddiffyn plant.  Gall cymorth ymyrraeth gynnar priodol, wedi'i deilwra i anghenion rhieni sydd ag anawsterau dysgu, helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i nifer o blant a'u rhieni.  Gallai enghreifftiau gynnwys defnyddio deunyddiau addysgu clyweledol, symleiddio iaith neu sgiliau addysgu trwy fodelu ymddygiad.  Bydd rhieni'n dysgu mewn ffordd fwy effeithiol pan roddir canmoliaeth ac adborth iddynt, a lle y caiff tasgau cymhleth eu rhannu'n rhannau symlach a bod mwy o amser yn cael ei ganiatáu er mwyn eu meistroli.  Efallai y bydd angen cymorth parhaus ar deuluoedd h.y.  cymorth yn ystod pob cam o ddatblygiad y plentyn.

Bydd angen i chi ystyried y ffordd orau i chi nodi a rhoi sylw i anghenion y rhieni hyn trwy'ch gwasanaethau cymorth i deuluoedd, a sut y mae modd i chi annog ymgysylltu â gwasanaethau.

Rhieni plant anabl

Er bod Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cyllid wedi'u glustnodi er mwyn datblygu gwasanaethau mewn ffordd benodol i fodloni anghenion rhieni sydd â phlant anabl, rhaid bod anghenion y teuluoedd hyn yn allweddol i bob rhan o'r rhaglen hefyd. Byddant yn wynebu'r un materion rhianta y bydd rhieni eraill yn eu hwynebu, ond bydd yn rhaid iddyn nhw addasu i'r sialensiau sy'n gysylltiedig ag anabledd eu plentyn hefyd, sy'n gallu arwain at bwysau emosiynol, cymdeithasol, corfforol ac ariannol ychwanegol. Bydd angen i chi ystyried sut y gellir bodloni'r anghenion hyn, naill ai trwy raglen y brif ffrwd neu thrwy elfen y Ffocws ar Anabledd.

Rhieni sydd â materion iechyd meddwl

Efallai na fydd problemau iechyd meddwl yn effeithio ar y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn, ond efallai y byddant yn golygu nad ydynt yn meddu ar gymaint o gapasiti i rianta mewn ffordd gyson a chadarnhaol. Gallai rhieni sydd â materion iechyd meddwl gael budd gan wasanaethau sy'n gallu gwella cydnerthedd a lles fel rhan o becyn cymorth cynhwysfawr.

Efallai y bydd plant rhieni sydd â chyflwr iechyd meddwl difrifol a pharhaus yn wynebu profiadau niweidiol sy'n gallu arwain at broblemau emosiynol, seicolegol ac ymddygiadol iddynt. Bydd rôl Teuluoedd yn Gyntaf yn eithaf cyfyngedig ar gyfer y rhieni hyn, ond dylid eu hannog i geisio help er mwyn delio â'u materion iechyd meddwl, fel bod modd iddynt fodloni anghenion eu plentyn a chael cysur na fyddant yn cael eu beirniadu mewn ffordd negyddol os byddant yn ceisio help.

Rhieni sy'n camddefnyddio alcohol neu sylweddau anghyfreithlon

Mae rhieni sy'n camddefnyddio alcohol neu gyffuriau mewn mwy o berygl o fethu ymateb i'w plant neu o'u hesgeuluso. Yn ogystal, efallai y byddant yn wynebu amrediad o faterion eraill hefyd megis tlodi, arwahanrwydd cymdeithasol, straen a phroblemau iechyd meddwl, yn ogystal â phroblemau gyda'u hiechyd corfforol. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn deall y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â'r rhieni hyn, gan weithio gyda nhw i'w helpu i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth priodol yn gynnar. Rhaid rhoi blaenoriaeth i unrhyw risgiau uniongyrchol y mae'r plentyn yn eu hwynebu, ac mae'n rhaid i ymarferwyr ymgysylltu â'r asiantaethau perthnasol cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod modd darparu'r cymorth cywir.

Teuluoedd sy'n ffoaduriaid/ceiswyr lloches

Mae teuluoedd sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn wynebu sawl rhwystr allweddol wrth iddynt geisio manteisio ar wasanaethau, gan gynnwys materion ieithyddol a chyfathrebu, yn ogystal ag arwahanrwydd diwylliannol a chymdeithasol. Gallai nifer o deuluoedd fod yn dioddef tlodi, straen a phroblemau iechyd meddwl hefyd. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn deall anghenion y teuluoedd hyn, a'u bod yn gallu ffurfio cysylltiadau cadarn gyda sefydliadau ffoaduriaid a sefydliadau cymunedol eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches er mwyn sicrhau bod

modd cynnig pecyn cymorth sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, annibyniaeth a lles.

Rhieni ifanc

Gall rhieni yn eu harddegau a'u plant wynebu sialensiau sylweddol. Maent yn fwy tebygol o fod yn unig riant, byw mewn tai gwael a byw ar incwm isel. Efallai bod eu teulu a'u perthynas wedi chwalu ac efallai eu bod wedi bod yn blant a oedd yn derbyn gofal, a bod hyn wedi rhoi argraffiadau negyddol iddynt o weithwyr proffesiynol. Yn ogystal, efallai y bydd ganddynt bryderon y bydd gweithwyr proffesiynol yn eu barnu am fod yn rhieni anaddas os byddant yn ceisio help.

Yn ogystal, efallai y bydd rhieni ifanc sydd wedi gwneud dewis cadarnhaol a rhagweithiol i gael plant yn wynebu sialensiau sylweddol, a dylech ystyried anghenion yr holl rieni ifanc yn eich ardal leol chi, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael sy'n gallu darparu cymorth effeithiol iddynt. Efallai y byddwch yn dymuno ystyried darpariaeth ar wahân ar gyfer rhieni ifanc sy'n canolbwyntio ar ddull gweithredu mwy anffurfiol, a gynlluniwyd i feithrin ymddiriedaeth a hyrwyddo ymgysylltu a chyfranogi. Yn ogystal, efallai y byddwch yn dymuno ystyried ffyrdd y gall gwasanaethau dargedu mamau a thadau ifanc ar wahân a gyda'i gilydd.

### 4.9 Pwy y mae angen iddynt gymryd rhan?

Mae darparu cymorth effeithiol ac amserol i rieni yn ddibynnol ar amrediad o bartneriaid allweddol yn cydweithio er mwyn nodi'r teuluoedd hynny y mae angen help arnynt, a bydd angen i chi sicrhau eich bod yn meithrin cysylltiadau cadarn â nhw. Gall partneriaid allweddol gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain:

- **Ysgolion/cwnselwyr ysgol/unedau cyfeirio disgyblion/gweithwyr addysg proffesiynol eraill.** Gall y rhain gyflawni rôl allweddol wrth adnabod angen yn gynnar, a gallant weithio gyda theuluoedd er mwyn atal problemau rhag gwaethygu. Mae ysgolion cynradd yn arbennig yn tueddu i gael cyswllt rheolaidd gyda rhieni a phlant ac yn aml, maent mewn sefyllfa dda i sylwi ar y newidiadau bach yn ymddygiad, ymddangosiad neu bresenoldeb plentyn, sy'n gallu dynodi problemau yn y cartref. Gall meithrin cysylltiadau da gydag ysgolion a gwasanaethau addysg yn eich ardal leol sicrhau eu bod yn ymwybodol o Deuluoedd yn Gyntaf a'u bod yn gallu cyfeirio teuluoedd i wasanaethau ar adeg briodol. Yn ogystal, efallai y byddwch yn dymuno ystyried buddsoddi mewn hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff mewn ysgolion, er mwyn iddynt ddarparu cymorth cynnar ar lefel isel i blant a theuluoedd sy'n dangos arwyddion cynnar angen, er mwyn eu hatal rhag gwaethygu a bod mewn sefyllfa lle y bydd angen cymorth mwy dwys arnynt yn nes ymlaen.
- **Gwasanaethau bydwreigiaeth.** Yn aml, bydwragedd yw'r cyswllt cyntaf a'r prif gyswllt ar gyfer teuluoedd yn ystod beichiogrwydd, trwy gydol y cyfnod esgor ac yn ystod y cyfnod ôl-enedigol cynnar, ac maent mewn sefyllfa allweddol i nodi a gweithio gyda theuluoedd y gallent fod yn dangos arwyddion o angen. Gallant

fod yn gyswllt hanfodol rhwng rhieni a gwasanaethau, a gallant fod yn allweddol er mwyn sicrhau y caiff cyfeiriadau eu gwneud cyn gynted ag y bo modd.

- **Ymwelwyr iechyd.** Mae ymwelwyr iechyd yn cyflawni rôl rheng flaen allweddol wrth annog a chynorthwyo rhieni yn eu cartref eu hunain, ac maent yn cyflawni rôl rheng flaen gwerthfawr wrth ymgysylltu teuluoedd, yn ogystal â'u cyfeirio am gymorth pellach. Mae'n bwysig eich bod yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gydag ymwelwyr iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn hyrwyddo manteision gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gan annog rhieni i ymgysylltu â nhw.
- **Asiantaethau iechyd eraill.** Gall gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol, meddygon teulu, CAMHS a gwasanaethau eraill gyflawni rôl canolog wrth helpu i nodi a chynorthwyo teuluoedd y gallai fod ganddynt anghenion mwy cymhleth. Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i rai teuluoedd gael ymyriadau mwy arbenigol, ac mae'n bwysig bod Byrddau Iechyd Lleol yn ymgysylltu â gwasanaethau a'u bod yn gallu gweithio law yn llaw â nhw er mwyn darparu cymorth arbenigol wedi'i deilwra'n fwy ar gyfer rhieni.
- **Gwasanaethau Tai.** Mae gan wasanaethau tai, boed y rhain yn wasanaethau awdurdodau lleol, yn gymdeithasau tai neu'n landlordiaid cymdeithasol, rôl gwerthfawr wrth gynorthwyo teuluoedd. Mae gweithwyr tai rheng flaen mewn sefyllfa dda i nodi teuluoedd y mae angen cymorth arnynt efallai, a bydd angen i chi sicrhau bod gennych chi berthnasoedd gwaith da gyda darparwyr gwasanaeth a'ch bod yn gallu gweithio gyda nhw i ddarparu pecynnau cymorth effeithiol i rieni.
- **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD).** Gall GGD gyflawni rôl allweddol wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd, sy'n ddiduedd ac a ddarparir yn rhad ac am ddim i deuluoedd, ac mae'n gallu nodi teuluoedd y mae angen cymorth pellach arnynt. Yn ogystal, mae GGD yn cydweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol a'r wybodaeth ddiweddaraf i'r teuluoedd y maent yn eu cynorthwyo.
- **Heddlu.** Gall gwasanaethau Heddlu Cymunedol helpu i nodi teuluoedd y gallai bod angen cymorth arnynt, a gallant gynnig cyngor gwerthfawr hefyd am ffactorau dylanwadu eraill y gallent fod yn effeithio ar sefyllfa benodol teulu, er enghraifft, carcharu, tensiynau cymunedol.
- **Gwasanaethau Statudol.** Efallai y caiff teuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf er mwyn cael cymorth gan y gwasanaethau statudol, eu “camu i lawr” i Deuluoedd yn Gyntaf am asesiad pellach. Rhoddir canllawiau pellach am y berthynas rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaethau statudol yn adran 7.
- **Gwasanaethau ieuenctid cymunedol y trydydd sector.** Mae grwpiau cymunedol y trydydd sector yn cyflawni rôl gwerthfawr wrth gynorthwyo pobl ifanc, ac maent mewn sefyllfa dda i nodi pobl ifanc mewn teuluoedd y gallai bod angen cymorth pellach arnynt. Mae'n bwysig bod gweithwyr yn y grwpiau hyn yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael trwy'r rhaglen, ac fe'u hanogir i wneud cyfeiriadau angenrheidiol.
- **Sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau arbenigol.** Gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau megis cymorth cam-drin domestig arbenigol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, neu wasanaethau cymorth arbenigol eraill. Gall y gwasanaethau hyn helpu i nodi teuluoedd y gallai fod angen mathau eraill o

gymorth arnynt, a gallant gynorthwyo teuluoedd i geisio'r help ychwanegol y mae ei angen arnynt hefyd.

### 4.10 Ymgysylltu â theuluoedd

Ceir amrywiaeth o resymau pam bod ymgysylltu â theuluoedd yn gallu bod yn heriol. Gall y rhain gynnwys rhwystrau corfforol megis diffyg trafnidiaeth neu rwystrau diwylliannol megis drwgdybiaeth hanesyddol o ddarparwyr gwasanaethau, neu rwystrau ieithyddol. Er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn, mae'n bwysig eich bod yn deall y materion lleol y gallent fod yn atal rhai teuluoedd rhag manteisio ar wasanaethau a ddarparir trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd yr adran hon yn ystyried rhai o'r materion hyn, ond fe'ch anogwn i edrych y tu hwnt i'r materion a ystyrir yma, gan ystyried y camau y gallwch chi eu cymryd er mwyn manteisio i'r eithaf ar ymgysylltu yn eich ardal leol chi.

Er y disgwyliwn i'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a gomisiynir gennych gael eu darparu trwy gyfrwng lleoliadau mewn mannau penodol, megis canolfannau plant integredig, canolfannau cymunedol ac ati, neu yn y cartref, bydd angen i chi ystyried hefyd ai'r rhain yw'r ffyrdd mwyaf priodol o ddarparu cymorth bob amser. Bydd angen i chi ystyried yn ofalus y ffyrdd y gellir darparu gwasanaethau, sy'n gallu annog rhieni i fanteisio arnynt, ar yr adeg o'r dydd sydd fwyaf cyfleus iddynt ac sy'n addas i'w trefniadau gofal plant. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan fyddwch yn darparu cymorth i deuluoedd sy'n gweithio, lle na fydd modd i'r ddau riant fanteisio ar wasanaethau yn ystod y dydd efallai, neu weithwyr sifft, nad ydynt gael mewn ffordd mor reolaidd efallai. Bydd angen i leoliadau fod yn lleol ac yn gyfleus i rieni fanteisio arnynt. Yn ogystal, bydd angen i chi ystyried a oes angen darparu gwasanaeth crèche er mwyn annog un neu ddau riant i fynychu gwasanaethau lle y gallai gofal plant fod wedi eu hatal rhag ymgysylltu fel arall.

Nid yw ymgysylltu cychwynnol gyda gwasanaethau cymorth yn gwarantu y bydd rhieni yn parhau i ymgysylltu. Dylid ystyried yn ofalus sut y gall gwasanaethau ddatblygu ymgysylltu cychwynnol er mwyn annog teuluoedd i ddychwelyd atynt, er mwyn sicrhau dilyniant a rhoi mwy o siawns o sicrhau llwyddiant hirdymor. Mae meithrin ymddiriedaeth yn hollbwysig er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol, ac efallai y bydd yn cymryd ychydig amser i berthynas o ymddiriedaeth ddatblygu. Mae amynedd yn hanfodol, ac ni ddylai teuluoedd deimlo dan bwysau i ymgysylltu cyn eu bod yn teimlo'n barod.

Dylid ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o feithrin ymddiriedaeth gyda rhieni, gan gofio nad oes un datrysiad sy'n “addas i bawb”. Dylid ystyried a gweithredu amrediad o strategaethau er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu rhieni gyda gwasanaethau cymorth yn cael ei gynnal.

Isod, rhoddir rhai awgrymiadau ymarferol y gallent annog rhieni i fynychu ac ymgysylltu gyda gwasanaethau:

***Annog ymgysylltu***

- Dewiswch leoliad sy'n adnabyddus ac yn dderbyniol i rieni. Gallai rhai lleoliadau gael eu hystyried mewn ffordd negyddol, ac efallai y bydd rhieni'n pryderu am y stigma cymdeithasol posibl sydd ynghlwm â'u mynychu. Dylid ystyried amgylcheddau anfygythiol ac y mae pobl yn ymddiried ynddynt bob amser, sy'n cynnwys mannau preifat er mwyn ennyn hyder rhieni na fydd unrhyw un y tu allan i'r grŵp neu rywun sy'n pasio'r lleoliad, yn eu gweld neu'n eu clywed.
- Cyfathrebu clir gyda rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth fanwl cyn mynychu gwasanaethau, er enghraifft, cynnwys map os yw hi'n anodd dod o hyd i leoliad, nodi'r amseroedd cychwyn yn eglur ac ati.
- Mae ymgysylltu cynnar yn hanfodol er mwyn meithrin perthynas o ymddiriedaeth – efallai y bydd teuluoedd yn dymuno ffurfio cysylltiad ag ymarferwr, ond efallai y byddant yn teimlo'n amharod i ymgysylltu ag unrhyw un ac eithrio nhw. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, byddem yn eich annog i fabwysiadu ymagwedd hyblyg, gan ystyried yr un gorau i ddatblygu'r berthynas orau gyda'r teulu, hyd yn oed os yw hyn yn golygu eu bod yn gweithio y tu allan i'w rôl unigol, ar yr amod eu bod yn meddu ar gymhwyster addas i wneud hynny.
- Ymgysylltu â phartneriaid megis yr heddlu a gweithwyr datblygu cymunedol er mwyn deall dynameg yr ardal leol ac a oes unrhyw resymau pam nad oes modd i rai pobl gydweithio.
- Darparu trafnidiaeth (yn ôl yr angen ac os oes modd). Gallai hyn helpu'r rhai sydd ar wahân mewn ffordd ffisegol, er enghraifft, oherwydd eu bod yn byw mewn lleoliad gwledig heb fawr iawn o fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig er mwyn helpu rhieni i fynychu lleoliadau grŵp, y gallant fod o fudd iddynt yn y pen draw trwy ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymheiriaid.
- Darparu byrbrydau/prydau/lluniaeth. Gall hyn fod yn ffordd o annog ymgysylltu ac mae'n helpu i greu awyrgylch mwy anffurfiol er mwyn helpu rhieni i ymlacio'n fwy, yn enwedig pan fyddant yn manteisio ar wasanaethau am y tro cyntaf.

***Cynnal gweithgarwch ymgysylltu***

- Rheolaeth effeithiol o ddynameg y grŵp er mwyn sicrhau bod yr holl rieni'n teimlo'u bod yn cymryd rhan mewn ffordd gyfartal. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn lleoliad grŵp, lle y gellir gweld sawl gwahanol fath o bersonoliaeth yn cystadlu i gael eu clywed.
- Annog cymorth gan gymheiriaid a rhwydweithiau anffurfiol a arweinir gan gymheiriaid y tu allan i'r lleoliad ffurfiol, gan sicrhau bod modd cyflawni hyn mewn ffordd ddiogel a chadarnhaol.
- Annog perchnogaeth bersonol dros amcanion rhianta, gan nodi “llwyddiannau hawdd” er mwyn helpu i feithrin hyder, ac adolygu cynnydd yn rheolaidd.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i rieni y mae lefel eu llythrennedd yn gyfyngedig, y rhai sydd ag anawsterau dysgu, neu'r rhai y gallai Saesneg fod yn ail iaith/iaith ychwanegol iddynt.

- Sicrhau y darparir gwasanaethau mewn ffordd ar y cyd, gan ddwyn rhieni i mewn i'r drafodaeth yn gynnar er mwyn eu hannog i helpu i ddatblygu datrysiadau i'w problemau eu hunain.
- Sicrhau y darparir cymorth mewn ffordd y gall rhieni uniaethu â hi, er enghraifft, defnyddio'u henghreifftiau nhw o sialensiau rhianta mewn trafodaethau a'u hannog i rannu syniadau a gwybodaeth gydag eraill.
- Cynnal cyswllt gyda'r holl rieni y tu hwnt i'r lleoliad ffurfiol, yn enwedig y rhai y byddant yn colli sesiwn efallai, a neilltuo amser i wrando ar adborth am y ddarpariaeth a cheisio gweithredu ar sail yr adborth hwnnw pan fo modd, a phan na fydd modd gwneud hynny, esbonio pam.
- Cynnig cymorth anffurfiol y tu allan i sesiynau i rieni y gallent fod yn ei chael hi'n anodd neu y gallent fod ar fin ymddieithrio. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig pan fo blaenoriaethau teulu wedi newid ac efallai bod angen cymorth mwy hyblyg ar y rhiant, neu ddull gweithredu holl wahanol, er mwyn ymateb i'r amgylchiadau hyn sy'n newid.

### 4.11 Monitro ymyriadau

Mae cael systemau er mwyn monitro a gwerthuso ymyriadau rhianta yn agwedd bwysig ar fesur ansawdd gwasanaeth; asesu a yw gwasanaethau'n gweithio mewn ffordd effeithiol; a chael amcan ynghylch a yw rhieni'n cael budd o'r cymorth y maent yn ei gael. Yn ogystal, mae'n darparu gwybodaeth werthfawr y gellir ei defnyddio wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau, ac fe allai fod o ddefnydd wrth nodi anghenion datblygu y gweithlu.

Un o brif bwyntiau gwerthuso gwasanaeth cymorth rhianta yw gallu adnabod a fu newid cadarnhaol; pennu a oes modd priodoli'r newid i'r ymyrraeth, a chanfod a fodlonwyd nodau'r ymyrraeth. Ceir nifer o offerynnau y gellir eu defnyddio er mwyn mesur newidiadau yn ymddygiad y plentyn a lles ac effeithlonrwydd rhieni, a gellir defnyddio'r rhain ar ddechrau ac ar ddiwedd yr ymyrraeth, ac yn ddelfrydol, yn y tymor hwy. Yn ogystal, gellir defnyddio'r offerynnau hyn er mwyn asesu'r angen rhianta a nodi cryfderau rhieni, yn ogystal â meysydd lle y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Gall helpu rhieni i nodi eu nodau eu hunain, gan ddangos unrhyw gynnydd a sicrhawyd wrth gyflawni'r rhain.

Mae *Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar Ymgysylltiad a Chymorth* yn cynnwys rhagor o wybodaeth am fonitro a gwerthuso cymorth rhianta.

# 5. Comisiynu strategol – Cymorth ar gyfer pobl ifanc

**Mae'r adran hon yn nodi ein disgwyliadau mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth i bobl ifanc. Dylid darllen yr adran hon law yn llaw â'r cyhoeddiadau canlynol:**

- **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid Cymru** 2014 - 2018
- **Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion**
- **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Cynllun Gweithredu**
- **Nodi'n gynnar: canllawiau arfer effeithiol**

## 5.1 Pam ddylai Teuluoedd yn Gyntaf ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc?

Mae darparu cymorth o ansawdd da i bobl ifanc yn hanfodol er mwyn helpu teuluoedd i wireddu eu potensial. Mae darparu mynediad i'r help cywir ar yr adeg gywir i bobl ifanc yn rhan bwysig o unrhyw becyn cymorth a ddarparir i deuluoedd. Gall helpu i feithrin cydnerthedd er mwyn galluogi pobl ifanc i feithrin y sgiliau y maent eu hangen er mwyn byw, dysgu a chyflawni. Gall eu cynorthwyo i gael mwy o reolaeth dros eu bywydau a gwneud dewisiadau mwy gwybodus, a'u diogelu rhag effeithiau'r profiadau sy'n gallu bod yn niweidiol, y gallent fod wedi eu cael.

Gallai'r ffactorau y gallent beri bod angen cymorth wedi'i dargedu ar berson ifanc gynnwys:

- Bwlio
- Cael profiadau niweidiol megis rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, gwrthdaro yn y teulu, rhiant yn y carchar, trais domestig neu iechyd meddwl gwael rhieni
- Dylanwadau negyddol gan grwpiau cymheiriaid
- Perthnasoedd teuluol gwael a diffyg cymorth yn y teulu
- Rhwydweithiau cymorth gwael y tu allan i'r teulu
- Tlodi
- Beichiogrwydd yn yr arddegau

Gal y profiadau hyn arwain at berson ifanc yn dangos y canlynol neu fod mewn perygl o ddatblygu'r canlynol:

- Problemau ymddygiadol
- Iechyd meddwl gwael
- Cyrhaeddiad a phresenoldeb gwael yn yr ysgol
- Lles cymdeithasol ac emosiynol gwael
- Tuedd i ymddwyn mewn ffordd beryglus

Gall rhoi sylw i'r ffactorau risg hyn a meithrin cydnerthedd pobl ifanc helpu i gyflawni nifer o amcanion cadarnhaol hirdymor, gan leihau nifer yr achosion o'r canlynol:

- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- Cyrhaeddiad addysgol isel
- Iechyd meddwl gwael
- Beichiogrwydd yn yr arddegau
- Troseddu ymhlith pobl ifanc

Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio sicrhau bod modd i'r holl bobl ifanc 11-25 oed fanteisio ar y gwasanaethau y mae angen iddynt fanteisio arnynt er mwyn gwireddu eu potensial. Wrth ddarparu gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl ifanc, dylai Teuluoedd yn Gyntaf fod yn ceisio datblygu'r ddarpariaeth graidd hon er mwyn sicrhau y gall ychwanegu gwerth i wasanaethau sydd eisoes ar gael. Ni ddylai'r rhaglen fod yn ceisio dyblygu na disodli unrhyw ddarpariaeth graidd sy'n bodoli eisoes i bobl ifanc. Rydym yn dymuno sicrhau bod pobl ifanc sy'n byw mewn amgylchiadau anodd yn gallu cael cymorth wedi'i dargedu er mwyn eu helpu i oresgyn y sialensiau y maent yn eu hwynebu.

## 5.2 Nodau craidd y cymorth ar gyfer pobl ifanc

Wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc, bydd angen i chi sicrhau y cynllunnir gwasanaethau gyda ffocws diogelu ac atal, a'u bod yn anelu at gyflawni'r canlynol:

- Grymuso pobl ifanc i fod yn gyfranogwyr gweithgar a chynhyrchiol mewn cymdeithas
- Meithrin hyder a chydnerthedd
- Gwella lles cymdeithasol ac emosiynol
- Gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc

Yn ychwanegol i'r rhain, dylai gwasanaethau geisio cynorthwyo pobl ifanc yn y meysydd canlynol hefyd:

- Datblygu capasiti pobl ifanc i ystyried risg, gwneud penderfyniadau rhesymedig a chymryd rheolaeth
- Datblygu agweddau, ymddygiad ac uchelgais gadarnhaol
- Datblygu gallu pobl ifanc i reoli perthnasoedd personol a chymdeithasol
- Atal anghenion rhag gwaethygu
- Diogelu pobl ifanc rhag y niwed a achosir gan ACEs a phrofiadau tebyg eraill

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn gyfranogwyr gweithredol yn eu datblygiad eu hunain. Rhaid i gymorth fabwysiadu dull gweithredu wedi'i seilio ar gryfderau, ac mae'n rhaid iddo gyd-fynd â nodau craidd rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

## 5.3 Beth yw ffocws oedran y cymorth ar gyfer pobl ifanc?

Mae prif ffocws gwasanaethau ieuenctid wedi'u targedu ar bobl ifanc 11-25 oed; fodd bynnag, mae gwella canlyniadau pobl ifanc yn yr ystod oedran hwn yn aml yn ddibynnol ar blant yn cael cymorth effeithiol pan fyddant yn iau. Gan gofio hyn, fe'ch anogwn i fabwysiadu dull gweithredu hyblyg tuag at y grwpiau oedran a fydd yn cael help trwy Deuluoedd yn Gyntaf, gan ddefnyddio'ch disgresiwn wrth benderfynu ar yr oedrannau y dylid targedu'r gwasanaethau hyn ar eu cyfer. Dylai'r penderfyniadau hyn, fodd bynnag, fod yn gysylltiedig â'r anghenion a nodwyd ymhlith pobl ifanc yn eich cymunedau lleol, a byddwn yn disgwyl eich bod yn gallu dangos sut yr ydych chi wedi gwneud y penderfyniad hwn yn eich Cynllun Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf.

## 5.4 Nodi anghenion pobl ifanc

Dylai'r gwasanaethau a ddatblygir trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf ymateb i'r anghenion a nodwyd ymhlith pobl ifanc mewn cymunedau lleol. Bydd y ffordd y nodir yr anghenion hyn yn bwysig iawn; mae adnabod y rhain yn gynnar yn allweddol er mwyn cynnig y siawns orau o sicrhau canlyniadau cadarnhaol hirdymor ar gyfer pobl ifanc. Disgwyliwn i Deuluoedd yn Gyntaf weithio mewn ffordd integredig ac ar y cyd, gan feithrin partneriaethau cadarnhaol gyda'r holl rai sy'n cael cyswllt rheolaidd gyda phobl ifanc. Gwelwyd bod defnyddio offerynnau adnabod cynnar, megis y Proffil Asesu Agored i Niwed (VAP), a gyflwynwyd fel rhan o weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, yn effeithiol iawn. Mae'r offerynnau hyn yn defnyddio amrediad o ddata, a gynorthwyir gan ddeialog broffesiynol, er mwyn nodi plant a phobl ifanc y gallai fod angen mwy o gymorth wedi'i dargedu arnynt, yn gynnar.

Er bod nodi'r angen yn gynnar yn bwysig, bydd grwpiau o bobl ifanc y gallent fod yn cyflwyno anghenion sy'n rhai penodol i grwpiau penodol. Bydd angen i ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc hyn fod yn fedrus wrth nodi'r anghenion hyn a'r ffactorau risg cysylltiedig. Mae'r wybodaeth a'r sgiliau hyn yn ffactor hanfodol er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau cywir yn eu lle i gynorthwyo'r person ifanc. Gallai'r grwpiau hyn gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain:

- Plant sy'n cael eu heffeithio gan y ffaith bod rhiant yn y carchar
- Plant sydd wedi dioddef profedigaeth
- Plant a addysgir y tu allan i ysgol prif ffrwd
- Plant o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr
- Plant sydd â materion iechyd meddwl
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Dioddefwyr cam-drin domestig
- Gofalwyr ifanc
- Rhieni ifanc
- Pobl ifanc sydd wedi derbyn gofal ond nad ydynt yn cael gwasanaethau statudol mwyach
- Pobl ifanc sy'n gadael y system cyfiawnder ieuenctid

Fodd bynnag, dylid seilio'r meini prawf er mwyn manteisio ar wasanaethau ar yr angen bob amser, ac nid ar y cwestiwn a yw'r person ifanc yn perthyn i grŵp penodol neu beidio.

Wrth ystyried anghenion y person ifanc, bydd hi'n bwysig meithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd iddynt yng nghyd-destun eu teulu a bod yn barod i ystyried, yn ôl yr angen, pa fesurau pellach y mae modd eu cymryd er mwyn bodloni anghenion y teulu cyfan, os nad yw'r rhaglen eisoes yn ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, efallai y bydd yn amlwg hefyd nad yw anghenion y person ifanc yn gysylltiedig â'u sefyllfa deuluol, a bydd angen i chi ystyried y ffyrdd mwyaf priodol o'u cynorthwyo mewn sefyllfaoedd o'r fath.

### 5.5 Pwy y mae angen iddynt gymryd rhan?

Mae llwyddiant cymorth ieuenctid wedi'i dargedu yn ddibynnol ar amrediad o bartneriaid allweddol yn cydweithio i nodi a rhoi sylw i anghenion pobl ifanc. Gall partneriaid allweddol gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain:

- **Pobl ifanc.** Rhaid ystyried safbwyntiau pobl ifanc wrth ystyried yr ymyriadau y mae eu hangen arnynt. Gall cynnwys pobl ifanc mewn prosesau cynllunio arwain at ddatblygu modelau ymyrraeth cynaliadwy hefyd. Mae pobl ifanc sy'n teimlo'n rhan o'r broses hon yn fwy tebygol o ymgysylltu mewn ffordd lwyddiannus â gwasanaethau, gan gynyddu eu siawns o sicrhau llwyddiant hirdymor.
- **Lleoliadau addysg**. Mae lleoliadau addysg, megis ysgolion, cwnselwyr, Unedau Cyfeirio Disgyblion, addysg bellach a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith, yn bartneriaid allweddol wrth helpu i nodi plant a phobl ifanc y gallent fod yn dangos arwyddion o'r ffaith bod anghenion yn dod i'r amlwg. Disgwyliwn i Deuluoedd yn Gyntaf ymgysylltu â nhw mewn ffordd weithredol er mwyn creu partneriaethau cadarn gydag arferion rhannu gwybodaeth cadarn, a fydd yn caniatáu cyfeiriadau effeithlon i Deuluoedd yn Gyntaf er mwyn galluogi pobl ifanc i fanteisio ar wasanaethau'n gynnar.
- **Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant (EPCs) Awdurdodau Lleol.** Mae EPCs yn cyflawni rôl cydlynu allweddol wrth nodi a chynorthwyo pobl ifanc sydd lleiaf tebygol o bontio'n llwyddiannus pan fyddant yn gadael addysg orfodol. Maent yn helpu i feithrin dealltwriaeth rhwng partneriaid ynghylch pa sefydliadau sy'n gwneud beth er mwyn cynorthwyo person ifanc ar unrhyw adeg benodol. Yn ogystal, maent yn hwyluso'r broses o neilltuo'r gweithiwr arweiniol mwyaf priodol.
- **Darparwyr gwaith ieuenctid.** Mae'r rhai y maent eisoes yn gweithio gyda phobl ifanc mewn sefyllfa dda i nodi pobl ifanc mewn angen, gan feithrin y perthnasoedd llawn ymddiriedaeth sy'n bwysig er mwyn sicrhau ymgysylltu a chyfranogi. Disgwyliwn i chi feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r darparwyr hyn o ran cyfeiriadau a darparu gwasanaeth.
- **Asiantaethau iechyd.** Gal asiantaethau iechyd, gan gynnwys meddygon teulu, CAMHS a gwasanaethau eraill gyflawni rôl canolog wrth helpu i nodi a chynorthwyo pobl ifanc y gallai fod ganddynt anghenion mwy cymhleth. Yn

ogystal, efallai y bydd angen triniaeth fwy arbenigol ar bobl ifanc sy'n cael cymorth ieuenctid wedi'i dargedu, felly mae'n bwysig bod Byrddau Iechyd Lleol yn ymgysylltu â gwasanaethau a bod modd iddynt weithio gyda nhw er mwyn darparu cymorth mwy effeithiol i bobl ifanc.

- **Heddlu**. Gall yr Heddlu, a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn arbennig, helpu i nodi pobl ifanc sy'n ymgysylltu ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu y maent mewn perygl o ymgysylltu ag ymddygiad o'r fath, a gallant gynnig cyngor gwerthfawr hefyd am ffactorau dylanwadol eraill y gallent fod yn effeithio ar ymddygiad person ifanc, er enghraifft, dynameg cymunedol a thensiynau teuluol.
- **Gwasanaethau cyfiawnder troseddol**. Mae gan wasanaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Timau Troseddau Ieuenctid, y Gwasanaeth Prawf, carchardai, a gwasanaethau adsefydlu cymunedol, brofiad sylweddol o ddarparu cymorth i bobl ifanc a nodi anghenion cymorth. Disgwyliwn i chi fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn a rhannu gwybodaeth er mwyn galluogi pobl ifanc sydd wedi cael cyswllt â'r system cyfiawnder ieuenctid i fanteisio ar ystod lawn o gymorth er mwyn eu helpu i oresgyn y sialensiau y maent yn eu hwynebu.
- **Grwpiau cymunedol trydydd sector.** Mae grwpiau cymunedol trydydd sector yn cyflawni rôl gwerthfawr wrth gynorthwyo a chyfoethogi bywydau pobl ifanc ac maent mewn sefyllfa dda i nodi'r rhai y mae angen cymorth pellach arnynt efallai. Disgwyliwn i chi feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r darparwyr hyn o ran cyfeiriadau a darparu gwasanaethau.
- **Gwasanaethau tai.** Yn aml, gall gwasanaethau tai fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl ifanc agored i niwed, er enghraifft, rhieni yn eu harddegau. Disgwyliwn i chi feithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda'r gwasanaethau hyn a'u hannog i nodi a chyfeirio pobl ifanc y gallent gael budd o'r cymorth a ddarparir trwy'r rhaglen.

### 5.6 Sut ddylid darparu cymorth?

Dylai Teuluoedd yn Gyntaf ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth i wasanaethau sy'n bodoli eisoes trwy weithio gydag amrediad o asiantaethau gan ddefnyddio dull gweithredu ar y cyd ac wedi'i gydlynu. Dylai gwasanaethau cymorth wedi'u targedu gynnwys amrywiaeth o elfennau sy'n canolbwyntio ar leihau'r risg i bobl ifanc

Nid gwasanaethau wedi'u targedu yw'r unig ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc agored i niwed neu bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, ac efallai bod nifer ohonynt yn mynychu darpariaeth mynediad agored megis clybiau ieuenctid. Gall gwasanaethau presennol gyflawni rôl hanfodol wrth feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth gyda phobl ifanc, ac yn aml, bydd modd iddynt nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg er mwyn galluogi ymyrraeth gynnar. Dylai Teuluoedd yn Gyntaf fod yn cynnig darpariaeth wedi'i thargedu *o fewn* gwasanaethau presennol, yn ogystal â gwasanaethau a gomisiynir y tu hwnt i'r ddarpariaeth statudol, sy'n gallu manteisio ar berthnasoedd sy'n bodoli eisoes rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid, gan ddarparu cymorth mewn amgylchedd diogel, heb stigma. Trwy annog darparu cymorth yn y fath ffordd, efallai y bydd modd i bobl ifanc agored i niwed ddatblygu mecanweithiau cymorth anffurfiol hefyd gyda'u cymheiriaid, a pheidio teimlo fel pe

baent yn cael eu “neilltuo” fel rhywun gwahanol neu drafferthus.  Dylai cymorth a ddarparir yn y fath ffordd fod yn gysylltiedig â chanlyniadau cynaliadwy ar gyfer y person ifanc bob amser, fel rhan o gynllun cymorth cytunedig.

Rydym yn cydnabod na fydd hi'n ymarferol darparu'r holl gymorth yn y fath ffordd efallai, ac efallai y bydd angen datblygu cymorth mwy arbenigol hefyd, sy'n ymateb i anghenion person ifanc unigol mewn ffordd benodol.  Yn ogystal, efallai y bydd gan asiantaethau partner wasanaethau cymorth penodol wedi'u targedu y gallent fod o fudd i berson ifanc fel rhan o becyn cymorth holistig, a dylech geisio ymuno â'r gwasanaethau hynny pan fo modd.

Dylid seilio'r gwaith o ddarparu cymorth ar gyfer pobl ifanc trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion eich ardaloedd lleol a gweithgarwch ymgysylltu cadarnhaol gyda'r holl randdeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc.  Bydd hyn yn eich helpu i greu modelau darparu cynaliadwy wedi'u teilwra i anghenion eich cymunedau, gan sicrhau y darparir gwasanaethau ar y cyd.

Wrth ystyried sut y darparir cymorth yn lleol, rhaid i chi sicrhau bod y person ifanc wastad wrth wraidd y broses er mwyn gwella'r siawns o sicrhau llwyddiant hirdymor gymaint ag y bo modd.

### 5.7 Themâu allweddol y cymorth

**Dylai gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer pobl ifanc roi sylw i'r themâu allweddol canlynol:**

- **Cydgynhyrchu a grymuso**
- **Iechyd a lles**
- **Cymorth gyda pherthnasoedd**
- **Cymorth pontio**

<u>Cydgynhyrchu a grymuso</u>

Dylai egwyddorion cydgynhyrchu a grymuso fod yn ganolog i'r holl wasanaethau a gomisiynir trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf.  Er mwyn sicrhau newid parhaus, mae angen bod modd i gymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc eu galluogi i fod yn bartneriaid yn y cyfleoedd a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a rhannu'r cyfrifoldeb dros y rhain.  Dylai llais a chyfranogiad gweithredol pobl ifanc fod yn ganolog ar bob lefel er mwyn eu hannog i deimlo cyswllt â'u hamgylchedd uniongyrchol a buddsoddi yn y cymorth y maent yn ei gael.

Bydd gwasanaethau'n helpu pobl ifanc i feithrin yr hyder a'r sgiliau cymdeithasol ac emosiynol y mae eu hangen arnynt er mwyn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau y byddant yn effeithio arnynt.  Gall helpu i atal pobl ifanc rhag dewis cymryd rhan mewn ymddygiad peryglus, a chynyddu eu diogelwch personol, yn ogystal â meithrin eu hyder a'u cydnerthedd i wneud dewisiadau gwell mewn bywyd.

Iechyd a lles

Gall hyrwyddo ymddygiad ffordd o fyw iach gael effaith gadarnhaol ar hunan-barch a lles emosiynol ymhlith pobl ifanc.

Mae'r ddogfen ganllawiau, Ymestyn Hawliau:cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru yn nodi bod gan bobl ifanc yr hawl i fyw bywyd iach, yn gorfforol ac yn emosiynol. O'r herwydd, dylai fod modd i bobl ifanc fanteisio ar gyngor a chymorth sy'n ymwneud â'u hiechyd pan fyddant ei angen. Gall gwaith ieuenctid gyflawni rôl pwysig yn hyn trwy ddefnyddio offerynnau addysgol, yn ogystal â chymorth ymarferol uniongyrchol. Gellir darparu cymorth mewn nifer o feysydd, y gallent gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Hyrwyddo ymarfer corff a ffitrwydd
- Perthnasoedd cadarnhaol, codi ymwybyddiaeth o iechyd rhywiol a lleihau beichiogrwydd yn yr arddegau
- Diet a maeth
- Camddefnyddio sylweddau ac alcohol

Yn ogystal, gall gwasanaethau cymorth ieuenctid helpu i roi sylw i faterion iechyd meddwl ar lefel is, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, trwy ddarparu cyngor, cymorth ac ymyriadau arbenigol eraill. Efallai y bydd modd i ddarparwyr gynnig cymorth uniongyrchol neu ddarparu cymorth wrth helpu person ifanc i fanteisio ar wasanaethau gan asiantaeth allweddol berthnasol.

Cymorth gyda pherthnasoedd

Mae perthnasoedd cryf a / neu esiamplau cryf yn ffactor allweddol wrth hyrwyddo lles ymhlith pobl ifanc. Pobl ifanc sydd wedi dioddef ACEs efallai neu y gallent fod yn dioddef materion sylweddol sy'n ymwneud ag ymlyniad, sy'n gallu cael effaith ddwys ar eu gallu i feithrin perthnasoedd diogel yn nes ymlaen yn ystod eu bywyd. Yn ogystal, efallai bod ganddynt iechyd corfforol a meddyliol gwael, problemau ymddygiadol a bod eu cyflawniad addysgol yn is. Mae angen cynorthwyo pobl ifanc mewn ffyrdd sy'n gallu eu helpu i feithrin y mathau cywir o berthnasoedd gonest, cefnogol a llawn ymddiriedaeth gyda'u rhieni, eu cymheiriaid a phobl arall. Gall hyn hyrwyddo cyfathrebu agored a chadarnhaol, sefydlogrwydd a chydnerthedd mewn perthnasoedd yn y presennol a'r dyfodol, a chael effaith gadarnhaol ar les emosiynol a chorfforol y person ifanc yn yr hirdymor.

Cymorth pontio

Mae nifer o bobl ifanc yn cael anhawster pan fyddant yn cyrraedd cyfnodau pontio yn eu bywydau, ac yn aml, mae'r graddau y mae modd iddynt ymdopi â'r newidiadau hyn yn ddibynnol ar y rhwydwaith cymorth o'u cwmpas. Gall hyd yn oed plant a phobl ifanc y mae'n ymddangos eu bod yn gydnerth ac yn gallu ymdopi, ei chael hi'n anodd delio â chyfnodau pontio sy'n eu tynnu o sefyllfaoedd yr oeddent yn gyfarwydd â nhw ac yn teimlo'n gyffyrddus ynddynt yn flaenorol.

I bobl ifanc, mae cyfnodau pontio yn perthyn i bedwar prif gategori:

- **Emosiynol** sy'n gallu cynnwys profiadau personol megis profedigaeth, ysgariad/teulu yn chwalu, rhieni yn ailbriodi
- **Deallusol** sy'n gallu cynnwys symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, o'r ysgol i addysg bellach neu'r brifysgol, neu o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion
- **Corfforol** sy'n gallu cynnwys symud i ysgol newydd neu symud cartref
- **Seicolegol** sy'n gallu cynnwys mynd trwy oed aeddfedrwydd neu ddatblygiad cyflwr meddygol hirdymor

Gall cymorth pontio wedi'i dargedu helpu pobl ifanc i ymdopi ag amrediad o gyfnodau pontio, gan roi amrywiaeth o sgiliau iddynt er mwyn ymdopi â sialensiau yn y dyfodol. Er ein bod yn disgwyl i chi roi sylw i'r angen am gymorth pontio ar draws yr holl themâu cymorth, rydym wedi ei gynnwys yma er mwyn amlygu pwysigrwydd rhoi'r cymorth cywir i bobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar fwy o gapasiti i ymdopi â newid.

## 5.8 Mathau o gymorth

Mae modd darparu cymorth i bobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd, a bydd angen i chi ystyried y ffordd fwyaf priodol o wneud hyn er mwyn bodloni anghenion eich ardaloedd lleol. Dylai fod modd i bobl ifanc allu manteisio ar wasanaethau mewn lleoliadau y maent yn gwybod amdanynt, megis ysgolion, colegau, canolfannau ieuenctid a chyfleusterau cymunedol eraill, gan gynnwys darpariaeth allgymorth a gwaith stryd. Gallai'r mathau o gymorth gynnwys:

- Gwasanaethau eiriolaeth
- Cwnsela neu gymorth mentora
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wedi'i deilwra i anghenion pobl ifanc
- Offerynnau cymorth digidol neu ar-lein sy'n cyd-fynd â gwasanaethau wyneb yn wyneb
- Gweithgareddau grŵp cymheiriaid sy'n galluogi pobl ifanc i helpu eu hunain a'i gilydd

## 5.9 Cynnal gweithgarwch ymgysylltu

Mae meithrin ymddiriedaeth yn allweddol er mwyn datblygu perthnasoedd llwyddiannus gyda phobl ifanc, ac yn ei dro, gall hyn eu hannog i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Byddai myfyrio am y rhesymau pam bod pobl ifanc *yn* mynychu gwasanaethau yn fan cychwyn da, gan ystyried sut y byddai modd efelychu unrhyw strategaethau neu ddulliau sy'n cynorthwyo ymgysylltu cadarnhaol ar draws gwasanaethau.

Efallai na fydd pobl ifanc yn dewis manteisio ar wasanaeth am nifer o resymau, ac mae'r rhain yn gallu bod yn rhai go iawn neu'n seiliedig ar ddirnadaeth. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain:

- Rhwystrau diwylliannol
- Anabledd
- Ymrwymiadau teuluol
- Rhesymau ariannol
- Arwahanrwydd daearyddol
- Problemau iechyd meddwl a chorfforol
- Dylanwadau grŵp cymheiriaid
- Tybiaeth y gallai cymorth fod yn eithrio ac yn gwahanu pobl ifanc, gan gynyddu risg stigma
- Cyswllt blaenorol gyda gwasanaethau, heb dybio bod hyn wedi bod o fudd
- Mae gwasanaethau'n amherthnasol
- Arwahanrwydd cymdeithasol
- Materion iaith, lleferydd a chyfathrebu
- Arweinir y cymorth gan y gwasanaeth yn hytrach na'r defnyddiwr
- Amseru (i rieni ifanc)

Trwy ddeall pam y gallai pobl ifanc fod yn amharod i ymgysylltu â gwasanaethau, bydd modd cymryd camau i oresgyn y rhwystrau hyn.  Gallai hyn gymryd amser, gan ddibynnu ar faint y mae'r rhwystrau hyn wedi ymwreiddio.  Rhaid bod modd i wasanaethau fabwysiadu dull gweithredu hyblyg wrth weithio gyda'r person ifanc i gynllunio a darparu gwasanaeth, er mwyn sicrhau cymaint o ddealltwriaeth ac ymgysylltu ag y bo modd.

## 6. Darparu gwasanaethau o ansawdd

Bydd y gweithlu sy'n darparu Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys ystod eang o unigolion o amrywiaeth o asiantaethau a sectorau. Gallent amrywio o staff parabroffesiynol nad ydynt yn meddu ar gymwysterau ffurfiol fel y rhai sydd gan weithwyr proffesiynol ar lefel gradd neu ôl-raddedig. Mae'n hanfodol bod yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd wrth ddarparu'r rhaglen yn meddu ar sgiliau priodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a'u bod yn cael eu goruchwylio mewn ffordd briodol er mwyn cyflawni eu rôl, a'u bod yn meddu ar y cymwysterau proffesiynol angenrheidiol pan fo hynny'n berthnasol.

Rhaid bod staff yn meddu ar y sgiliau i feithrin a chynnal perthnasoedd gyda theuluoedd (neu aelodau unigol o fewn teuluoedd) o amrediad amrywiol o gefndiroedd, rhaid eu bod yn gallu adnabod eu hanghenion a gwneud dewisiadau gwybodus am addasrwydd ymyriadau. Yn ogystal, rhaid i'w gwaith gael ei seilio ar safonau galwedigaethol perthnasol.

Mae hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau sy'n bodloni safonau ansawdd cytunedig, ac yn rhagori arnynt. Disgwyliwn i'r holl staff sy'n gweithio i ddarparu Teuluoedd yn Gyntaf ddangos ymrwymiad i ddatblygiad parhaus mewn ffordd ffurfiol neu anffurfiol, er mwyn rheoli eu dysgu a'u twf proffesiynol. Bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau a ddarparir trwy'r rhaglen, yn ogystal ag ansawdd yr arfer a'r gwasanaethau.

Efallai yr hoffech ystyried fabwysiadu dull gweithredu ar y cyd â rhaglenni eraill megis Dechrau'n Deg, er mwyn cynorthwyo mwy o weithgarwch amlasiantaethol a datblygu'r dull gweithredu amlasiantaethol tuag at gynorthwyo teuluoedd ymhellach. Yn ogystal, bydd angen i chi ystyried anghenion staff sy'n ymwneud â darparu cymorth i deuluoedd er mwyn gwella'u sgiliau a'u datblygiad parhaus ymhellach. Gallai hyn gynnwys gwaith grŵp, dosbarthiadau meistr er mwyn gwella arfer, cyfeirio a llwybrau cyfeirio, monitro a gwerthuso a gwella hyfforddiant er mwyn darparu rhaglenni neu wasanaethau newydd.

Mae arfer da yn gofyn am gyfle i fyfyrio a chynnal gwerthusiad personol, ac mae modd galluogi hyn trwy gyfrwng gweithgarwch effeithiol wrth fentora a goruchwylio staff. Gall goruchwyliaeth gael effaith gadarnhaol ar hyder, capasiti a chymhwystra'r gweithlu ac mae'n gallu helpu i hyrwyddo arfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus, yn ogystal â chynorthwyo sefydlogrwydd a morâl cadarnhaol ymhlith y rhai sy'n gwneud gwaith uniongyrchol gyda theuluoedd.

# 7. Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaethau statudol

Mae'n bwysig bod modd i deuluoedd y mae angen cymorth arnynt fanteisio ar y mathau cywir o wasanaethau er mwyn helpu i atal eu hanghenion rhag gwaethygu neu ymwreiddio.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn canolbwyntio ar ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth atal, a dylai barhau i ganolbwyntio ar hynny. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd y rhaglen yn aml yn gweithio gyda theuluoedd sydd ag anghenion mwy cymhleth, yn enwedig trwy TAF. Pennir y trothwyon er mwyn cael cymorth yn lleol ac mae'n rhaid ystyried pob achos yn unigol. Rhaid i unrhyw gamau a gymrir fod yn seiliedig ar egwyddorion ymyrraeth gynnar ac atal ac ar ôl cynnal asesiad, os na fyddwch o'r farn y byddai modd i ymyriadau Teuluoedd yn Gyntaf atal yr anghenion rhag cynyddu, efallai y bydd angen gwneud cyfeiriad pellach i wasanaeth statudol. Mae hyn yn wir am unrhyw achos lle na fyddai ymyriad gan Deuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ystyried yn briodol, gan gynnwys achosion lle y mae teuluoedd wedi cael eu “camu i lawr” i'r rhaglen.

### 7.1 Gweithio gyda theuluoedd sy'n agored i wasanaethau statudol

Fel rheol, ni ddylai Teuluoedd yn Gyntaf weithio gyda theuluoedd sy'n cael gwasanaethau statudol neu y maent yn agored i wasanaethau statudol. Fodd bynnag, mewn achosion penodol, efallai y cyfeirir teulu i'r rhaglen er mwyn cael cymorth ac os bydd hyn yn digwydd, bydd angen ystyried pob achos yn unigol. Gallai'r amgylchiadau lle y byddwch yn penderfynu gweithio gyda theulu gynnwys:

- Mae'r cymorth ar gyfer plentyn o fewn y teulu
- Mae'r teulu'n sicrhau cynnydd da ac maent yn debygol o ymateb yn dda i'r ymyrraeth

Gallai amgylchiadau lle y byddwch yn penderfynu peidio gweithio gyda theulu gynnwys:

- Ceir arwyddion y gallai materion o fewn y teulu fod yn gwaethygu
- Nid yw'r teulu wedi ymgysylltu neu sicrhau cynnydd gyda'r ymyriadau a gawsant hyd yn hyn
- Nid yw ymyrraeth Teuluoedd yn Gyntaf yn briodol er mwyn bodloni anghenion y teulu
- Nid ydych yn teimlo bod staff Teuluoedd yn Gyntaf yn meddu ar gymwysterau addas i weithio gyda theulu o ystyried difrifoldeb eu hanghenion

Mewn achosion pan fyddwch yn penderfynu gweithio gyda theulu, dylid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Dylid diffinio rolau darparwr gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a rhai'r asiantaeth statudol ar y cychwyn, a chytuno arnynt
- Yr asiantaeth statudol sy'n parhau i feddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros y

teulu, ac mae'n rhaid eu hysbysu o gynnydd y teulu yn rheolaidd

- Rhaid adolygu achos y teulu'n rheolaidd er mwyn ystyried a yw ymyrraeth Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i fod yn briodol

## 8. Gofynion cynllunio

Rhaid i chi gyflwyno Cynllun Cyflawni cynhwysfawr sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu darparu Teuluoedd yn Gyntaf yn eich ardal leol, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth sy'n berthnasol i'ch prosesau penderfynu. Anfonir templed atoch i'w lenwi ond fel canllaw, dylai'r holl gynlluniau gynnwys y canlynol:

- Trosolwg yr awdurdod lleol o Gynllun Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf
- Cyllid
- Cyflawni elfennau allweddol
    - JAFF
    - TAF
    - Comisiynu strategol
    - Ffocws ar Anabledd
- Alinio rhaglenni
- Sialensiau a risgiau
- Amlinelliad o'r gweithgareddau arbed costau a gynlluniwyd
- Gweithgarwch dysgu a gynlluniwyd
- Trefniadau llywodraethu

Bydd gofyn i bob awdurdod lleol gyflwyno Cynllun Cyflawni ar gyfer 2018-19, ond bydd pa mor aml y byddwch yn cyflwyno'ch cynlluniau wedi hynny yn dibynnu ar eich cylchoedd cynllunio lleol a hyd eich contractau.

Disgwyliwn i chi adolygu'ch cynlluniau'n rheolaidd er mwyn asesu a ydynt yn parhau i fod yn addas i'r diben. Bydd angen i chi gyflwyno cynlluniau diwygiedig yn yr amgylchiadau canlynol:

- Newidiadau i gyllid y rhaglen
- Newidiadau i unrhyw rai o'r elfennau allweddol, e.e. datgomisiynu gwasanaethau, newidiadau i fodelau TAF ac ati.
- Newidiadau i drefniadau llywodraethu
- Newidiadau arwyddocaol eraill y gallent effeithio ar ddarpariaeth y rhaglen

Bydd angen i'ch Rheolwr Cyfrif roi eu cytundeb ysgrifenedig i bob Cynllun Cyflawni.

## 9. Arbed costau trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod datblygiad parhaus cymorth ymyrraeth gynnar effeithiol yn cynrychioli dull gweithredu deallus tuag at weithio gyda theuluoedd a buddsoddi mewn gwasanaethau. Nid yn unig y gall y gwasanaethau hyn ddarparu cymorth effeithiol ac amserol i deuluoedd, atal anghenion rhag cynyddu ac atal canlyniadau hirdymor gwael, gallant gynnig arbedion hirdymor ar lefel leol a chenedlaethol hefyd.

Mae tystiolaeth werthuso Teuluoedd yn Gyntaf yn amlygu bod gan y rhaglen y potensial i arbed costau mawr pan gaiff teuluoedd eu cynorthwyo i osgoi canlyniadau hirdymor gwael iawn, ac mae'n cynnwys nifer o astudiaethau achos er mwyn dangos amrediad yr arbedion y byddai modd eu gwneud.

Disgwyliwn i'r holl awdurdodau lleol ddatblygu'r canfyddiadau cychwynnol hyn, gan ddangos ymrwymiad gweithredol i'r cam o gyfrifo'r costau y mae modd eu harbed trwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf. Efallai yr hoffech ystyried bwrw golwg ar hyn o bersbectif rhanbarthol neu aml-awdurdod, a gallwn eich cynorthwyo i wneud y cysylltiadau hyn. Yn ogystal, efallai yr hoffech ystyried canolbwyntio ar elfennau penodol o'r rhaglen yn hytrach na'r rhaglen gyfan, er enghraifft, efallai y bydd hi'n fwy ymarferol i chi ystyried y costau a arbedir trwy gyfrwng TAF ar wahân i'r rhai a arbedir trwy gyfrwng y prosiectau strategol.

Byddwn yn disgwyl i chi gynnwys sut yr ydych yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn yn eich Cynlluniau Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf o 2018-19 ymlaen.

## 10. Yr iaith Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r gwaith o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.  Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru, gan bennu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Safonau'r Gymraeg ym mis Mawrth 2016 ac mae'n rhaid i'r holl awdurdodau lleol gydymffurfio â'r rhai sy'n berthnasol iddyn nhw. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r safonau hyn sy'n rhwymo mewn cyfraith wrth i chi gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd yn eich ardal leol.